


# ADRODDIAD TERFYNOL

Methodolegau Cynllunio Gofodol Cymharol

*Chwefror 2001*



**Adran Cynllunio  
Dinesig a Rhanbarthol**

**ECOTEC**  
RESEARCH & CONSULTING

**CARDIFF  
UNIVERSITY**  
**PRIFYSGOL  
CAERDYDD**

**PROSIECT YMCHWIL METHODOLEGAU  
CYNLLUNIO GOFODOL CYMHAROL**

**Adroddiad Terfynol**

**Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd**

**ac**

**ECOTEC Research and Consulting Cyf**

**Chwefror 2001**

## CYNNWYS

	<b>Rhif Tud.</b>
Crynodeb Gweithredol	1
Adran 1: Cyflwyniad i nodau ac amcanion yr astudiaeth ymchwil a'r gwaith a wnaed	4
Adran 2: Asesiad cymharol o fethodolegau cynllunio gofodol	8
Adran 3: Y cyd-destun ar gyfer fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol i Gymru	18
Adran 4: Y dewisiadau ar gyfer datblygu Fframwaith Gofodol i Gymru	28
Adran 5: Tuag at Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru	40
Atodiad Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru: Papur Trafod ar gyfer Ymgynghori	42

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

### **Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol i Gymru**

Mae cynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru “*Gwell Cymru*” yn cynnwys ymrwymiad i baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol i Gymru erbyn mis Mawrth, 2003. Mae ymrwymiad pellach i baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol wedi ei osod allan yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi comisiynu gwaith ymchwil fel rhan o Raglen Ymchwil Cynllunio yng Nghymru i hyrwyddo'r ymrwymiad i baratoi'r fframwaith y mae'r astudiaeth bresennol yn rhan ohoni.

### **Yr Astudiaeth**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ymchwil o dan y teitl “*Comparative Spatial Planning Methodologies*”, a baratowyd gan dîm o Brifysgol Caerdydd ac Ecotec Research and Consulting rhwng mis Tachwedd 2000 a mis Chwefror 2001. Mae'r Adroddiad Terfynol hwn yn dilyn Adroddiad Dros Dro ym mis Ionawr 2001, a chydag ef daw Papur Gweithio Astudiaethau Achos sy'n rhoi arolwg manwl o'r chwe astudiaeth achos a ddewiswyd.

Mae'r Adroddiad Terfynol yn cynnwys:

- Cyflwyniad sy'n gosod allan gefndir, nodau ac amcanion ac elfennau allweddol yr ymchwil;
- Crynodeb dadansoddol o'r methodolegau cynllunio gofodol a ddefnyddiwyd yn y chwe astudiaeth achos;
- Archwiliad o'r cyd-destun Cymreig ar gyfer Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, gan gynnwys arolwg o'r prif bolisiâu sydd wedi eu paratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â barn detholiad o ymatebwyr o blith yr asiantaethau allweddol yn y Cynulliad a'r tu allan;
- Dadansoddiad o'r 14 elfen gyffredin yn y methodolegau cynllunio gofodol a arolygwyd yn y chwe astudiaeth achos, er mwyn tynnu gwersi o'r arfer gorau yng nghyd-destun y sefyllfa benodol yng Nghymru, gan gymryd i ystyriaeth farn arbenigol ymatebwyr a budd-ddeiliaid.
- Nodi amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer datblygu Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, a nodi'r dewis sydd fwyaf tebygol o fodloni'r meini prawf deul o arfer gorau ac addasrwydd yng nghyd-destun Cymru.

Cynhwysai'r astudiaeth eglurhad o'r cyd-destun Ewropeaidd ar gyfer mentrau cynllunio gofodol, ynghyd ag archwiliad o bolisiâu'r Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu eu dimensiynau gofodol pendant a goblygedig. Cynhaliwyd seminar yn Nhrefyclo, Powys yn gynnar yn yr astudiaeth i gael barn budd-ddeiliaid arwyddocaol. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig wedyn gyda 15 o arbenigwyr a ymatebodd i gael eu barn am y dull mwyaf addas i'w ddefnyddio wrth lunio Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol.

Wedyn dadansoddwyd y gwersi 'arfer gorau' a ddistyllwyd o'r arolwg o'r chwe astudiaeth achos ym mhob un o'r 4 o gamau methodolegol wrth ddewis dull priodol a datblygu Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Ychwanegwyd gwybodaeth bellach at y

dadansoddiad ym mhob un o'r camau hyn gan arolwg manwl o'r cyd-destun Cymreig sydd wedi ei gyflwyno ym mholisiâu cyfredol CCC, a chan farn budd-ddeiliaid ac atebwyr a gafodd gyfweiliad. O'r broses honno cynhyrchwyd nifer o ddewisiadau bras er mwyn llunio a datblygu Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol.

## **Dewisiadau ar gyfer datblygu Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol**

Nodwyd pedwar dewis:

### 1. Datganiad Gweledigaeth

- darparu gweledigaeth holl-gynhwysol o ddyheadau ar gyfer meysydd polisi penodol. Byddai'r datganiad yn cael ei ategu gan ddangosyddion meincnodi allweddol ac ni fyddent yn cynnwys mapiau na chyflwyniad gweledol.

### 2. Fframwaith Strategol

Gallai hwn fod mewn un o ddwy ffurf:

- a) mabwysiadu ffocws dadansodol, yn seiliedig ar ddadansoddiad ffwythiannol o themâu allweddol (gan gynnwys Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol), a byddent yn cynnwys cyflwyniad gweledol ar amrywiaeth o raddfeydd addas; neu
- b) yn seiliedig ar egwyddorion allweddol, gyda chyflwyniad gweledol o bynciau allweddol a hynny ar raddfa eang ar ffurf map.

### 3. Dull Prif Gynllun

- yn ei hanfod yn ymwneud â dyluniadau defnydd-tir neu dri-dimensiwn, penodedig ac wedi ei gyflwyno ar ffurf plan manwl neu fap.

## **Dull hoff ddewis**

- Nid yw'r tîm ymchwil yn ystyried bod dull **datganiad gweledigaeth** na **phrif gynllun** yn briodol ar gyfer fframwaith cynllunio gofodol i Gymru, gan nad yw'r naill na'r llall yn gweithio'n dda yn y dadansoddiad o'r 14 cam methodolegol allweddol sydd wedi eu gosod allan yn yr astudiaeth.

Barn mwyafrif y budd-ddeiliaid a'r ymatebwyr yw fod gan y CCC nifer o ddatganiadau gweledigaeth yn eu meysydd polisi allweddol, ond nad yw'r rheiny wedi eu cysoni'n ddigonol o ran eu goblygiadau gofodol. At hynny, mae datganiadau gweledigaeth yn eu hanfod yn anodd eu monitro o ran eu gweithredu. Nid yw dull prif gynllun penodedig i'w weld mwyach yn y dogfennau 'arfer gorau' mwyaf blaenllaw, a barn unfrydol y budd-ddeiliaid a'r ymatebwyr a gafodd gyfweiliad oedd ei fod yn hollol amhriodol yng nghyd-destun Cymru.

- Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fynd yn ei flaen i baratoi dull **fframwaith strategol**

Mae dull felly'n gweithio'n dda yn erbyn y camau methodolegol a nodir yn yr adroddiad, ac felly mae'n cyd-fynd â'r arfer gorau sydd wedi ei nodi o'r astudiaethau achos. Fel y sylwyd, mae dau amrywiad ar y dull hwn. Mae'r **egwyddorion allweddol**, fodd bynnag, er yn gweithio'n lled dda yn y rhan fwyaf o'r camau, yn dueddol o drin dimensiynau polisi mewn

dull cymharol goblygedig. Mae'r **ffocws dadansoddol**, ar y llaw arall, yn gallu bod yn benodol iawn yn ei ffocws gofodol, sy'n gymorth mawr wrth weithredu, monitro ac arolygu. Am y rhesymau hynny, dyna oedd hoff ddewis y mwyafrif amlwg o'r ymatebwyr a gafodd gyfweiliad.

Rhaid sylwi nad oes yn rhaid i'r ddau ddewis hwn fod yn hollol ar wahân i'w gilydd, a gall y ffocws dadansoddol gael ei ddatblygu'n hawdd allan o ddull egwyddorion allweddol cychwynnol.

- Argymhellir y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fynd yn ei flaen i lunio Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, a fydd yn darparu arweiniad ar ffurf fframwaith strategol ac yn ceisio datblygu ffocws dadansoddol wrth integreiddio meysydd thematig allweddol. Dull deinamig a hyblyg o'r fath sydd fwyaf tebygol o ymateb i anghenion polisi ac i hwyluso gweithredu effeithiol drwy fonitro gwell ac arolygu parhaus.
- Wrth ddatblygu'r NSPF, bydd angen cynnwys egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy, egwyddorion lles economaidd yn y Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol sydd ar ymddangos, ac egwyddorion cynhwysiad cymdeithasol CCC, ynghyd â meysydd polisi allweddol eraill. Ymhlith y rheiny, bydd y Fframwaith Cludiant a Pholisi Cynllunio Cymru sydd ar y gweill yn cael effaith fawr ar y fframwaith gofodol sy'n datblygu.
- Mae'r adroddiad yn ystyried yr ystod o bynciau a gynhwysir yn y chwe astudiaeth achos o fframweithiau cynllunio gofodol, a'r rheiny sy'n deillio o arolwg o bolisiau CCC. Argymhellir y dylai'r NSPF wau i mewn i raglenni cynllunio gofodol yr Undeb Ewropeaidd; mynegi polisiau a rhaglenni'r Cynulliad; darparu cyd-destun ar gyfer penderfyniadau o bwys, ac ar gyfer dyrannu adnoddau gan y Cynulliad a chan asiantaethau eraill y llywodraeth a rhai nad ydynt yn dod o dan y llywodraeth, a chan y sector preifat; a darparu cyd-destun ar gyfer gwneud polisiau a phenderfyniadau gan awdurdodau lleol. Fel fframwaith gofodol, bydd yn delio'n briodol â materion datblygu ac ymatal ar raddfa eang, h.y. lle mae pynciau sy'n ymwneud â Chymru gyfan yn y cwestiwn. Gellir defnyddio'r NSPF i archwilio ystod briodol o sefyllfaedd gwahanol ar gyfer datblygiad gofodol Cymru.
- Wrth ystyried y data a'r gofynion ymchwil ar gyfer paratoi fframwaith gofodol, mae'r adroddiad yn arolygu arferion cyfredol ac yn gosod allan (yn Adran 3.7 a 4.3) y prif feysydd pwnc sydd i'w hymgorffori. Darperir arolwg byr o'r setiau data cyfredol sydd ar gael ar wahanol raddfeydd gofodol yng Nghymru (Tabl 3.1), ynghyd â bylchau y gellir eu nodi a'r hoff fesurau. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynorthwyo i ddewis yr opsiwn gorau, oherwydd dadleuir y bydd datblygu **themâu gofodol** (fel mynediad i gludiant; cynhwysedd trefol/gwledig; datblygiad economaidd; cyflenwi tir; cynaladwyedd, ayb.) yn galluogi ffynonellau data a thechnegau dadansoddi sydd eisoes yn bod i gael eu datblygu'n gynyddol o'r sail pwnc adrannol presennol i fod yn fframwaith integredig i lunio a gwerthuso polisi.
- Mae'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol yn strategol o ran natur, ac felly dylai ddarparu arweiniad am gyfnod o 15-20 mlynedd.
- Bydd i'r fframwaith statws Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a bydd yn cefnogi mentrau eraill gan y Cynulliad drwy ddarparu strategaeth ofodol gydlynol dros gyfnod hir ar gyfer lles cymunedau yng Nghymru.

# **1. CYFLWYNIAD I NODAU AC AMCANION YR ASTUDIAETH YMCHWIL A'R GWAITH A WNAED**

## **1.1 Cefndir yr Astudiaeth**

- 1.1.1 Mae cynllun strategol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru [www.gwellcymru.com](http://www.gwellcymru.com) yn cynnwys ymrwymiad i baratoi fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol i Gymru. Mae ymrwymiad pellach i baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol wedi ei osod allan yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i baratoi, erbyn mis Mawrth 2003, fframwaith cynllun gofodol cenedlaethol newydd a fydd yn gysylltiedig â pholisïau'r Cynulliad ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- 1.1.2 Daeth Adroddiad Terfynol Fforwm Cynllunio Defnyddio Tir y Cynulliad Cenedlaethol i'r casgliad y dylai adran ychwanegol ar gynllunio gofodol gael ei chynnwys am y tro ym Mholisi Cynllunio Cymru. Argymhellodd y Fforwm y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, ymhen amser, baratoi persbectif Cynllunio Gofodol Cymru.
- 1.1.3 Darperir y cyd-destun ar gyfer y Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol i Gymru hefyd gan y Persbectif Datblygiad Gofodol Ewropeaidd (ESDP). Mae'r ESDP yn darparu'r cyd-destun Ewropeaidd ar gyfer cynllunio ar bob lefel, gan gysylltu defnydd-tir â pholisi a rhaglenni economaidd a chymdeithasol. Yr oedd tasg CCC ar gyfer y prosiect ymchwil cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm astudio sicrhau bod cyngor yn cael ei gynnwys ar sut i symud ymlaen i Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru, ac y dylai hynny wau i mewn gyda pholisïau a rhaglenni ESDP a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chyrrff eraill sy'n debygol o ymwneud â'r mater. Felly, mae gwaith y tîm astudio wedi golygu ymgynghori helaeth ag unigolion a budd-ddeiliaid corfforaethol yng Nghymru. Mae'r tîm astudio hefyd wedi ymgynghori ag unigolion a chyrrff mewn rhannau eraill o'r DU a'r rheiny sy'n arbenigwyr ar gynllunio gofodol yn yr Undeb Ewropeaidd.

## **1.2 Nodau ac Amcanion**

- 1.2.1 Roedd dibenion y prosiect ymchwil hwn eisoes wedi eu rhoi yn nogfen gyfarwyddo'r Cynulliad (Medi 2000). Nod yr astudiaeth yw mynd ymlaen â gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru. Roedd yn ofynnol i'r astudiaeth arolygu methodolegau cynllunio gofodol sy'n bodoli ac sy'n datblygu, gan dynnu ar enghreifftiau o brofiad y DU ac Ewrop. Ar ôl nodi ac ystyried methodolegau cynllunio gofodol, yr oedd yn ofynnol i'r astudiaeth awgrymu'r fethodoleg cynllunio gofodol fwyaf addas, neu'r cyfuniad o fethodolegau felly, i'w defnyddio wrth baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru (gweler paragraff 4.1, t.3 o'r Cefndir).
- 1.2.2 Mae'n ofynnol i'r Fframwaith Cynllunio Gofodol hefyd wau i mewn gyda rhaglenni a pholisïau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn arbennig yr angen am ystyried ei berthynas â'r Cynllun Datblygiad Cynaliadwy, y Strategaeth Genedlaethol Datblygiad Economaidd, Rhaglen Amcan I Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a'r Strategaeth Cludiant. Dylai'r Fframwaith Cynllunio Gofodol hefyd ddarparu'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisi ar lefel leol, gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Unedol.

1.2.3 Cafodd amcanion penodol y prosiect ymchwil eu nodi (paragraff 4.3, p.4 o'r Cefndir) fel hyn:

- (i) arolygu methodolegau cynllunio gofodol sydd eisoes yn bod a rhai arfaethedig, gan dynnu ar enghreifftiau o brofiad y DU ac Ewrop/Gweddill y Byd;
- (ii) mynd ymlaen â gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru, ac awgrymu'r methodolegau cynllunio gofodol mwyaf addas i'w defnyddio wrth ei baratoi;
- (iii) cynghori ar amrywiaeth y pynciau i'r Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru ddelio â hwy; ac
- (iv) asesu'r data a'r gofynion ymchwil ar gyfer paratoi'r Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru.

### 1.3 Dogfen Dendro'r Tîm Astudio

1.3.1 Cyflwynodd y Tîm Astudio ei Ddogfen Dendro i CCC ym mis Hydref 2000. Roedd honno'n cynnwys cwmpas y fethodoleg i'w mabwysiadu gan y Tîm Astudio wrth ymgymryd â'r prosiect ymchwil a'i gwblhau o fewn y cyfnod angenrheidiol o dri mis. Yr oedd y Ddogfen Dendro hefyd yn cynnwys disgrifiad o'r Tîm Astudio, CV pob un o aelodau'r Tîm Astudio, costau'r astudiaeth, a rhestr ddangosol o'r prosiect o ran amser.

1.3.2 Yr oedd pum rhan i'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan y Tîm Astudio i gynnal y prosiect ymchwil:

- |       |   |
|-------|---|
| Cam 1 | Cychwyn   |
| Cam 2 | Arolwg o fethodolegau cynllunio gofodol gwahanol  |
| Cam 3 | Asesiad o'r dull mwyaf priodol i Gymru  |
| Cam 4 | Cyngor ar yr amrywiaeth pynciau y gallai Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru ddelio â hwy, a gofynion data |
| Cam 5 | Argymhellion a dewis hoff ddull/rhai hoff ddulliau  |

1.3.3 Mae'n dda gan y Tîm Astudio allu dweud wrth yr Cynulliad Cenedlaethol ei fod wedi cwblhau'r holl gamau uchod yn y prosiect ac o fewn yr amser angenrheidiol. Mae elfennau allweddol y prosiect ymchwil i'w gweld yn Ffigur 1. Rhoddwyd adroddiad ar yr arolwg o ddimensiwn gofodol polisiau CCC, y cyd-destun Ewropeaidd ar gyfer cynllunio gofodol, yr arolwg o ddatganiadau cynllunio rhanbarthol, a'r seminar dechnegol i fudd-ddeiliaid a gynhaliwyd yn Nhrefyclo yn Adroddiad Cynnydd y Tîm Astudio (Rhagfyr 2000).


1.3.4 Ym mis Ionawr 2001, cwblhaodd y Tîm Astudio gyfres o gyfweiliadau gydag unigolion mewn Adrannau Polisi penodol yn CCC ac asiantaethau allanol. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hynny ar sail set gyffredin o gwestiynau (gweler Atodiad 1) yn cynnwys yr angen am gael Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru (NSPF), ei nodau tebygol, pa bynciau polisi y gallai ddelio â hwy, disgwyliadau budd-ddeiliaid,



swyddogaeth a statws NSPF, ei swyddogaeth wrth integreiddio ystod o bolisiau gwahanol, pwysigrwydd cysylltu NSPF â mentrau CE, a oes gan Gymru gronfa ddata ddigonol i baratoi NSPF a ble oedd y bylchau, ac ar ba ffurf y byddai NSPF yn cael ei gyflwyno. Yr oedd rhai o'r cwestiynau hyn hefyd wedi eu trafod gan fudd-ddeiliaid eraill yng Nghymru yn y seminar technegol yn Nhrefyclo ym mis Rhagfyr 2000.

- 1.3.5 Mae'r Tîm Astudio hefyd wedi arolygu detholiad o astudiaethau achos ar gynllunio gofodol yn rhanbarthau'r DU ac yn yr Undeb Ewropeaidd (yn arbennig yr Iseldiroedd a'r Almaen, dwy wlad sydd â phrofiad maith o gynllunio gofodol).
- 1.3.6 Mae'r Adroddiad Terfynol hwn yn cynnwys argymhellion sut y gallai'r CCC ddatblygu Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru. Mae'r Tîm Astudio hefyd wedi rhoi sylw manwl i'r angen i CCC ddatblygu menter a gaiff ei hystyried yn eang, yn y DU a chan y gymuned ryngwladol, fel menter o safon uchel, sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r holl fudd-ddeiliaid dan sylw, ac sy'n delio â'r pynciau anodd a gwahanol yn aml sy'n wynebu Cymru ac sy'n gofyn am gael eu datrys. Mae'r Adroddiad Terfynol hwn, felly, yn darparu cyngor am ddatblygu Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol i Gymru, cyngor am yr holl bynciau y gellid delio â hwy, a'r data a'r gofynion ymchwil y byddai hynny'n ei olygu.

**Ffigur 1:** Elfennau Allweddol y Prosiect Ymchwil



## 2. ASESAD CYMHAROL O FETHODOLEGAU CYNLLUNIO GOFODOL

### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r adran hon yn tynnu ar ganlyniadau'r 6 astudiaeth achos a wnaed ar gyfer yr astudiaeth. Mae'n archwilio'r dull a ddefnyddiwyd mewn gwahanol achosion i ddatblygu cynlluniau, strategaethau neu fframweithiau gofodol. Yr oedd yr achosion a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth yn cynnwys enghreifftiau o brofiad y DU ac Ewrop. Mae'r achosion canlynol wedi eu harolygu:

North West Regional Planning Guidance, Lloegr  
Yorkshire and Humber Regional Planning Guidance, Lloegr  
West Midlands Regional Planning Guidance, Lloegr  
National Spatial Strategy, Iwerddon  
Spatial Planning in the Netherlands  
Spatial Planning in Germany

Mae'r achosion astudiaeth llawn wedi eu cynnwys mewn casgliad ar wahân o bapurau gweithio. Mae archwiliad o'r achosion hyn yn awgrymu nifer o elfennau methodolegol cyffredin (Ffigur 2.1), sy'n cynnwys proses mewn 14 cam wrth ddatblygu a defnyddio strategaeth ofodol. Defnyddir y 14 cam hwn i strwythuro'r adran.

#### **Ffigur 2.1 Elfennau cyffredin mewn methodolegau cynllunio gofodol**

---

1. Rhesymeg wedi ei nodi, neu sy'n ddealladwy, ar gyfer strategaeth ofodol
2. Diben wedi ei nodi
3. Datganiad am egwyddorion allweddol
4. Statws wedi ei gytuno (statudol neu anstatudol, er enghraifft)
5. Natur y cyflwyniad (mapiau, testun neu'r ddau)
6. Natur y dull (ar sail pwnc, megis tai neu thematig, fel datblygiad cytbwys)
7. Y berthynas â'r system gynllunio ehangach
8. Y berthynas â strategaethau eraill
9. Y math o waith cefndir a wnaed i ddatblygu'r strategaeth
10. A yw'r strategaeth yn fras yn un ddadansoddol, yn gosod allan bolisiau strategol neu'n fodd i weithredu polisiau
11. Graddau'r ymgynghori a wnaed
12. A yw'r strategaeth yn agored i arolwg annibynnol a/neu arfarniad cynladwyedd
13. Yr amserlenni ar gyfer datblygu'r strategaeth
14. Trefn fonitro ac arolygu

2.1.2 Yn ogystal, mae nifer o bynciau proses hefyd yn cael eu cydnabod yn bwysig. Gall y weithred o lunio'r strategaeth fod yn elfen allweddol wrth greu dealltwriaeth o natur a swyddogaeth y strategaeth yn ogystal ag ysgogi cefnogaeth. Mae hyn yn wir yn arbennig mewn manau lle nad oes hanes o gynllunio gofodol.

## 2.2 Elfennau cynllunio gofodol

### *Sail resymegol*

- 2.2.1 Mae'r sail resymegol ar gyfer strategaethau gofodol yn rhyfeddol o debyg ym mhob un o'r chwe achos. Gwelir eu bod yn darparu fframwaith ar gyfer integreiddio polisi'n ehangach, ac yn gosod allan y patrwm gofodol cyffredinol o ddatblygiad yn yr ardal dan sylw. Fodd bynnag, peth prin yw iddynt gael eu gweld fel cynlluniau datblygu sy'n pennu lleoliadau derbynol ar gyfer datblygiad newydd.
- 2.2.2 Yn y tri achos yn Lloegr a archwiliwyd, y sail resymegol yw y dylai Arweiniad Cynllunio Rhanbarthol (RPG) ddarparu strategaeth ofodol i'r rhanbarth a fydd yn creu "cyd-destun gofodol ar gyfer gweithgareddau datblygiad economaidd yr Awdurdod Datblygu Rhanbarthol (RDA) a chynlluniau darparwyr rhwydwaith mewnol a gwasanaethau ... diwydiant a masnach". Yn yr un modd yn yr Almaen, gwelir bod y cynlluniau gofodol yn darparu fframwaith gofodol ar gyfer datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
- 2.2.3 Yn Iwerddon, gwelir bod y Strategaeth Ofodol Genedlaethol a fwriedir yn darparu fframwaith cynllunio bras y disgwylir iddo fod yn fframwaith i allu llunio a datblygu polisi sectoraidd (fel datblygu mentrau, twristiaeth, rhwydwaith mewnol, gwasanaethau ac amaethyddiaeth, er enghraifft) mewn ffordd fwy cytbwys
- 2.2.4 Mae'r sail resymegol dros strategaeth ofodol yn aml wedi ei gosod allan rywle arall mewn polisi domestig. Er enghraifft, yn Lloegr mae'r sail resymegol ar gyfer RPG wedi ei gosod allan yn Nodyn Arweiniad Polisi Cynllunio (PPG11). Fodd bynnag, mae'n werthfawr i osod allan y sail resymegol o fewn y strategaeth ei hun er mwyn helpu darllenwyr nad ydynt yn arbenigwyr.

### *Diben*

- 2.2.5 Ym mhob achos, diben y strategaethau gofodol a arolygwyd oedd llunio cyd-destun y gellid llunio cynlluniau datblygu lleol manylach o'i fewn. Yn gyffredinol, roedd y strategaethau gofodol hefyd yn dueddol o ddiffinio'r blaenoriaethau datblygu eang ar gyfer awdurdodau cenedlaethol a rhanbarthol, yn dibynnu ar ba lefel y cafodd y strategaeth ei llunio.
- 2.2.6 Yn Iwerddon, disgwylir i'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol nodi patrymau datblygiad dangosol ar gyfer gwahanol ardaloedd, a gosod i lawr bolisiâu eang ar gyfer lleoliad gwahanol fathau o fuddsoddi, yn ogystal â darparu fframwaith i lunio polisiâu ehangach. Yn yr Iseldiroedd, mae'r ddogfen bolisi ar gynllunio gofodol cenedlaethol hefyd yn gweithredu fel ffordd i gyflymu gwahanol bolisiâu. Mae'n rhoi cyfeiriad i weithredu gan y llywodraeth, ac mewn gwirionedd yn cael dylanwad sylweddol ar weithredu gan gyrrff cyhoeddus eraill.
- 2.2.7 Prif swyddogaeth cynlluniau gofodol yn yr Almaen, ar lefel Lander, yw darparu cysyniad cynllunio ar lefel y dalaith ar gyfer 'trefn' a datblygiad y dalaith (megis Bavaria) a'i his-ranbarthau. Yn Berlin-Brandenburg, er enghraifft, mae'r cynllun yn nodi lleoliad pegynau twf. Yn yr achosion a archwiliwyd yn yr Almaen, mae cynlluniau'r dalaith yn darparu arweiniad i ddatblygu cynlluniau gofodol is, ac yn eu tro mae'r cynllun gofodol cenedlaethol yn dylanwadu arnynt.

2.2.8 Yn Lloegr caiff swyddogaeth RPG yn fras ei phennu ac felly mae'n debyg rhwng y tair enghraifft, er bod rhai gwahaniaethau'n dod yn amlwg. Yn gyffredinol, gellir crynhoi swyddogaeth RPG fel hyn:

- Darparu strategaeth ofodol ranbarthol i allu paratoi cynlluniau datblygu a chynlluniau cludiant lleol awdurdodau lleol o'i mewn
- Gosod allan bolisiau cynllunio rhanbarthol
- Darparu strategaeth ddatblygu eang ar gyfer y rhanbarth dros gyfnod o 15-20 mlynedd a nodi graddfa a dosbarthiad y ddarpariaeth ar gyfer tai newydd, a blaenoriaethu ar gyfer yr amgylchedd, cludiant a sectorau eraill sydd wedi eu nodi.

2.2.9 Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr yn mynd ymhellach na hyn, fel y mae datblygiad RPG ar hyn o bryd. Mae'n cynnig y dylai RPG ddarparu strategaeth leoliadol, neu ofodol, wedi ei mynegi'n glir ac sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng Gorllewin Canolbarth Lloegr a gweddill y byd, natur y rhanbarth a'r berthynas sy'n datblygu rhwng y dref a'r wlad.

2.2.10 Nid yw Gorllewin Canolbarth Lloegr ar ei phen ei hun yn pwysleisio pwysigrwydd perthynas gydag ardaloedd y tu allan i'r rhanbarth. Yn Bavaria mae'r berthynas ar draws ffiniau a choridorau cludiant ar draws rhanbarthau hefyd yn cael eu pwysleisio'n gryf.

#### *Egwyddorion arweiniol*

2.2.11 Caiff y rhan fwyaf o strategaethau gofodol eu hatgyfnerthu gan nifer o egwyddorion arweiniol, neu amcanion strategol. Y rhain sy'n gosod y paramedrau a ddefnyddir gan y strategaeth ofodol i benderfynu patrymau datblygiad gofodol bras i'w hyrwyddo. Ym mhob achos, mae egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn elfen allweddol. Mae hyn yn symud strategaeth ofodol ar unwaith i ffwrdd o ystyriaethau defnyddio tir yn unig.

2.2.12 Yn Lloegr, mae'r ddau RPG sydd wedi eu cyhoeddi yn cymryd strategaeth datblygiad cynaliadwy'r DU fel sail, sef:

- Cynnal lefelau uchel a sefydlog o dwf economaidd a chyflogaeth
- Cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb
- Diogelu'r amgylchedd yn effeithiol
- Defnydd doeth o adnoddau naturiol

2.2.13 Yng Ngogledd Orllewin Lloegr caiff hyn ei atgyfnerthu drwy:

- Ddefnydd darbodus o dir
- Gwellu'r cyfalaf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd presennol
- Sicrhau ansawdd datblygiad

2.2.14 Nid yw Gorllewin Canolbarth Lloegr eto wedi cyhoeddi RPG diwygiedig ar ffurf drafft. Fodd bynnag, mae'n ystyried 6 her ynghyd ag 8 egwyddor graidd, sydd gyda'i gilydd yn rhoi set o ddewisiadau strategol sy'n ganolbwynt i waith datblygu cynnar ac ymgynghori. Mae'r 6 her wedi eu gosod allan isod gan eu bod yn darparu ffenestr ddefnyddiol ar ychydig o'r gwaith sy'n angenrheidiol i ddatblygu strategaeth ofodol mewn gwirionedd:

- A all ac a ddylai twf gael ei sianelu o'r ardaloedd lle mae'r potensial mwyaf i'r ardaloedd lle mae'r angen mwyaf
- A ellir dylanwadu'n effeithiol ar y patrymau newid cymdeithasol hynny, sy'n arwain at ddwysau anfantais ofodol
- Beth ddylai natur a ffurf dadeni ac adfywiad trefol fod
- Sut gellir bodloni anghenion arbennig ardaloedd gwledig y rhanbarth
- Sut gellir sicrhau patrwm priodol o ddatblygiad a fydd yn lleihau'r angen i deithio
- A yw rhai ardaloedd yn cyrraedd eu terfynau amgylcheddol o ran eu gallu i gymryd twf pellach

2.2.15 Yn yr Almaen, mae datblygiad cynaliadwy hefyd yn thema allweddol, ac ystyriaethau rhanbarthol eraill yn darparu egwyddorion ychwanegol. Er enghraifft, yn Bavaria, mae datblygu rhanbarthau ffiniol a choridorau cludiant i daleithiau cyfagos yn egwyddor allweddol, a hefyd gwarchod nodweddion is-ranbarthol fel cryfder ar gyfer datblygiad economaidd. Gall y rhain gynnig cyffelybiaeth ddefnyddiol i Gymru yn ei dymuniad i gefnogi treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y wlad.

2.2.16 Mae Iwerddon hefyd yn tynnu sylw at egwyddorion datblygiad cynaliadwy, gan adeiladu allan o'r rhain i nodi'r dymuniad i adeiladu ar ddeinameg gyfredol y system drefol-wledig a'r angen am gefnogi twf cenedlaethol ac economaidd parhaus.

#### *Statws*

2.2.17 Mae statws y strategaethau gofodol a archwiliwyd yn amrywio. Yn y Lander yn yr Almaen mae'n ddogfen sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac sy'n rhaid i gynlluniau is ei chymryd i ystyriaeth. Yn Lloegr, mae RPG yn ystyriaeth o bwys a dylai cynlluniau datblygu gael eu diwygio yng ngoleuni ei ddarpariaethau. Yn yr Iseldiroedd mae ei statws gryn lawer yn uwch oherwydd ei effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol bosibl ar batrwm buddsoddi'r wlad.

2.2.18 Yn gyffredinol, fodd bynnag, swyddogaethau gweithredu cyfyngedig sydd i strategaethau gofodol, ac felly dibynnant ar y gallu i gymell ac effaith ysgogol llywio rhaglenni buddsoddi cyhoeddus. Hyd yn oed yn yr Almaen, ychydig allu sydd gan gynlluniau gofodol i ddylanwadu ar ddefnydd digyfaddawd o gynllunio gofodol.

2.2.19 Ym mhob achos, ystyriwyd bod cynlluniau gofodol ar eu cryfaf lle'r oedd cytundeb cryf ar eu nodau a'u hamcanion. Gall fod yn fater o ddweud yr hyn sy'n amlwg, ond lle'r oedd cyrff yn barod i 'gefnogi' nodau ac amcanion y cynllun, felly hefyd yr oedd cydlynid polisi'n fwy tebygol o ddigwydd, gyda neu heb statws. Er enghraifft, yn yr Iseldiroedd dechreuwyd gweithredu darpariaethau'r 4ydd Cynllun Gofodol Cenedlaethol cyn gynted ag y cafodd ei gyhoeddi, yn hytrach na phan gafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Y rheswm am hynny oedd bod cytundeb ar ei gynnwys cyffredinol ac yr oedd budd-ddeiliaid yn ymwybodol nad oedd hynny'n mynd i newid yn sylweddol. Yn Iwerddon, grym y broses sydd wedi ei mabwysiadu yw'r cytundeb eang fod y Strategaeth Ofordol Genedlaethol yn ddymunol, a chynnwys amrywiol adrannau'r llywodraeth wrth lywio'r Strategaeth, ynghyd â phroses ymgynghori gynhwysol a pharhaus.

#### *Natur y cyflwyniad*

2.2.20 Gall strategaethau gofodol gael eu cyflwyno ar ffurf testun sy'n gosod allan yr egwyddorion neu'r polisiau gofodol allweddol sy'n gymwys neu y gellir eu cyflwyno

fel un neu ragor o fapiau sy'n dangos natur ofodol yr ardal dan sylw. Gall fod yn briodol defnyddio cyfuniad o'r dulliau hyn. Gall defnydd testunol osod allan yn gliriach na mapiau yr amrywiaeth polisiâu sy'n gweithredu'r strategaeth. Gall mapiau hefyd fod yn fwy cyfyngol drwy nodi ffiniau manwl drwy ddim ond tynnu llinell syml o gwmpas ardal. Fodd bynnag, gall mapiau fod yn hawdd eu dehongli a bod yn sail ar gyfer darlunio a dadlau'r hyn a all fod yn gysyniadau cymhleth.

- 2.2.21 Mae'r gwaith dadansoddol yn aml wedi ei seilio'n drwm ar ddarlunio cartograffaid. Mae hynny'n wir yn Iwerddon ac yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Yma mae llawer iawn o ddata a'r berthynas rhwng gwahanol weithgareddau yn gallu bod yn haws eu trin drwy weithgareddau'n seiliedig ar fapiau. Mae rhai ardaloedd hefyd yn defnyddio GIS a thechnolegau'r rhyngwlad i ddarlunio a rheoli'r symiau mawr o ddata sy'n cael eu cynhyrchu wrth ddyfeisio strategaethau gofodol.
- 2.2.22 Mewn llawer achos mae'r strategaeth ofodol sy'n deillio wedi ei seilio'n gryfach ar destun disgrifiadol. Yn yr Almaen mae cynlluniau ar lefel Lander yn cynnwys dros 100 tudalen o destun ac ychydig fapiau darluniadol yn unig. Mewn RPG, y ffurf safonol yw un diagram allweddol yn cael ei gefnogi gan ddogfen yn seiliedig ar destun sy'n gosod allan bolisiau'n ymwneud â strwythur gofodol y rhanbarth.

#### *Natur y dull*

- 2.2.23 Mae strategaethau gofodol yn dueddol o gael eu trefnu naill ai o gwmpas nifer o bynciau fel tai, cyflogaeth, gwastraff ac yn y blaen, neu mae iddynt ddull thematig, yn integreiddio gwahanol bynciau, fel cefnogi datblygiad rhanbarthol cytbwys neu hyrwyddo dadeni trefol.
- 2.2.24 Yn yr Iseldiroedd mae dogfen y polisi cynllunio gofodol wedi ei llunio o gwmpas cyfres o bynciau, fel y rheiny a nodir ym Mluch 2.1. Yn Lloegr mae RPG hefyd yn fras yn defnyddio dull pwnc, er bod RPG Gogledd Swydd Efrog a hwnnw ar gyfer Humber yn gosod allan nifer o themâu eang, fel y canlynol yng Ngogledd Orllewin Lloegr:
- Sicrhau mwy o gystadleuaeth a thwf economaidd gyda chynnydd cymdeithasol
  - Sicrhau dadeni trefol
  - Cynnal cymunedau gwledig ac arfordirol llai y rhanbarth
  - Rheoli asedau amgylcheddol a diwylliannol y rhanbarth yn ddoeth i sicrhau ansawdd yr amgylchedd
  - Creu rhanbarth sy'n hawdd ei gyrraedd

***Blwch 2.1 Enghreifftiau o gynnwys pynciau mewn strategaeth ofodol***

- Tai;
- Datblygiad trefol a gwledig;
- Anghenion trefol a gwledig;
- Cludiant/rhwydwaith mewnol;
- Datblygiad economaidd;
- Diwylliant;
- Twristiaeth;
- Rhaglenni ariannu domestig ac Ewropeaidd;
- Eithrio cymdeithasol;
- Cynllunio gwastraff;
- Ansawdd yr amgylchedd;
- Cynladwyedd.

2.2.25 Mae'r dull yn yr Almaen wedi ei strwythuro'n gryfach o gwmpas themâu penodedig. Er enghraifft, yn Northrhine-Westphalia mae'r cynllun gofodol wedi ei strwythuro o gwmpas 14 o egwyddorion sylfaenol ar gyfer datblygiad gofodol, pedair egwyddor gyffredinol ac 14 o egwyddorion sectoraidd. Dyma'r egwyddorion cyffredinol: gwahaniaethu trefol-gwledig, categorïau trefol, mannau canolog a choridorau datblygiad. Mae'r rhain yn debyg i'r amcanion strategol sydd wedi eu gosod allan yn Berlin-Brandenburg, sef: datblygu canol trefi ac arallgyfeirio eilaidd, peidio â chanoli datblygiad aneddiadau, gwella ansawdd bywyd mewn dinasoedd, gwella cludiant rheilffyrdd cyhoeddus a chreu cysyniadau cludo nwyddau integredig.

2.2.26 Mae'r dull yn Northrhine-Westphalia yn debyg i hwnnw sydd wedi ei fabwysiadu yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac mae'n ymddangos bod ynddo wersi gwerthfawr i Gymru, sef bod y strategaeth ofodol yn seiliedig ar egwyddorion eang fel datblygiad gofodol neu hygyrchedd. Caiff hynny ei droi'n nifer o themâu allweddol, sy'n llunio amcanion strategol y strategaeth sydd i gael eu gweithredu drwy ddull sector neu bwnc. Gallai'r fframwaith gweithredu gael ei gynnwys yn y strategaeth ofodol, ond nid o reidrwydd.

*Y berthynas â'r system gynllunio ehangach*

2.2.27 Ym mhob achos, mae gan y strategaeth ofodol berthynas gref â'r system gynllunio ehangach. Yn achos yr Iseldiroedd a'r Almaen, mae'n rhan integredig o'r system o gynlluniau a strategaethau gofodol sy'n gweithredu ar wahanol raddfeydd gofodol. Yn Lloegr, mae i RPG hefyd berthynas glir â'r system cynlluniau datblygu, gan osod y cyd-destun ar gyfer diwygio cynlluniau is-ranbarthol. Yn Iwerddon nid yw'r berthynas wedi ei sefydlu eto er bod y bwriad wedi ei nodi'n glir, yn gymaint â bod y strategaeth wedi ei bwriadu i ddylanwadu ar leoliad datblygiad yn y dyfodol.

2.2.28 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r strategaethau a ystyriwyd yn gweithredu fel canllawiau y mae'n rhaid i gynlluniau lefel is eu cymryd i ystyriaeth wrth gael eu llunio. Wrth gwrs, gall arweiniad felly fod yn anodd ei wrthwynebu, ac anaml y bydd cynlluniau lefel is yn gweithredu'n groes i'r arweiniad sydd wedi ei osod allan yn y ddogfen gynllunio ar lefel uwch.

2.2.29 Mewn amrywiad ar hyn, mae yn yr Almaen egwyddor *gwrthgerrynt* sy'n caniatáu i'r haen is gyfrannu wrth gynllunio'r haenau uwch perthnasol. Mae ychydig ofid yn yr



Almaen y gall hyn olygu tynnu lefel y broses gynllunio i lawr wrth geisio cael cytundeb rhwng y naill ochr a'r llall.

- 2.2.30 Yn hanfodol, mae'r system gynllunio ehangach yn rhan integredig o weithredu'r strategaeth ofodol ym mhob achos a ystyriwyd, er ei bod lawn mor wir nad oedd yr un o'r dulliau gofodol yn dibynnu'n unig ar system cynllunio defnyddio tir i gael ei weithredu.

*Y berthynas â strategaethau eraill*

- 2.2.31 Ym mhob achos, mae'r strategaeth ofodol yn cael ei chysylltu'n agos iawn ag amrywiaeth o strategaethau eraill er mwyn sicrhau ei gweithredu'n llwyddiannus. Mae hyn yn rhannol yn nodwedd o'i swyddogaeth i gydlynu polisiâu gwahanol. Fodd bynnag, nid oedd y strategaeth ofodol yn yr un o'r achosion i'w gweld yn amlwg yn brif ddogfen strategaeth. Mae'r berthynas yn fwy symbiotig, yn enwedig mewn achosion fel yr Iseldiroedd a'r Almaen, lle mae cynllunio gofodol integredig yn elfen ganolog yn y dull cynllunio, a lle caiff cynlluniau sectoraidd a gofodol eu llunio drwy broses ymgynghorol.

- 2.2.32 Yn Lloegr mae RPG yn dueddol o fod â chysylltiad agos â nifer o strategaethau ehangach. Mae'r strategaeth gludiant ranbarthol wedi ei hymgorffori mewn RPG ac felly ychwanegir ati gan yr egwyddorion eang sydd wedi eu gosod allan mewn RPG. Caiff y Strategaeth Economaidd Ranbarthol sydd wedi ei datblygu gan bob Awdurdod Datblygu Rhanbarthol ei hystyried yn gyffredinol fel strategaeth gyfochrog sydd â swyddogaeth bwysig wrth sicrhau datblygiad ranbarthol cyffredinol. Er enghraifft, yn RPG Swydd Efrog a Humber mae yna berthynas gref gyda'r RES. Yn yr achos hwn, mae amcanion bras RPG a'r RES wedi deillio o fframwaith strategol cyffredin *Advancing Together into the Millennium: A Strategic Framework*. Mae hwn yn rhoi enghraifft glir o'r ffordd y gall fframwaith gofodol ddarparu un 'goes' i fframwaith strategol integredig.

*Dadansoddiad Cefndir*

- 2.2.33 Mae pob un o'r strategaethau gofodol wedi eu seilio ar ddadansoddiad cefndir. Amrywia natur y dadansoddiad yn ddigon sylweddol o ran dyfnder a chwmpas. Mae'r lefel uchaf o ddadansoddi sydd wedi ei thargedu'n benodol at ddatblygu strategaeth ofodol i'w gweld yn Iwerddon. Mae rhaglen sylweddol o ymchwil a dadansoddi wedi ei chychwyn i geisio gwella gwybodaeth am strwythurau gofodol presennol a chysylltiadau rhwng ardaloedd, gan gynnwys sefyllfaoedd tuedd. Defnyddir y gwaith hwn i ychwanegu at ddatblygu cyfleoedd a dewisiadau ym mhatrwm y datblygiad a'r diffiniad o strategaethau, blaenoriaethau a mecanweithiau gweithredu, a'r dewis ohonynt. Mae'r rhaglen ymchwil wedi canoli ar 6 maes allweddol:

- Iwerddon drefol a datblygiad ranbarthol cytbwys
- Iwerddon wledig a datblygiad ranbarthol cytbwys
- Pobl a datblygiad ranbarthol cytbwys
- Rhwydwaith mewnol cyfathrebu a datblygiad ranbarthol cytbwys
- Rheoli'r amgylchedd a datblygiad ranbarthol
- Mecanweithiau darparu a datblygiad ranbarthol cytbwys

- 2.2.34 Yn yr un modd, yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr gwnaed nifer o astudiaethau pwysig i ychwanegu at ddatblygu RPG diwygiedig. Dwy astudiaeth allweddol yw astudiaeth tir cyflogaeth ac astudiaeth i ddatblygu fframwaith lluosganolog ar gyfer

Rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr. Roedd yr astudiaeth honno'n nodi dosbarthiad gofodol swyddogaethau ledled y Rhanbarth. Defnyddir y rhain ar y cyd â phapurau sydd wedi eu llunio i ddatblygu dewisiadau strategol i ddatblygu'r Rhanbarth yn y dyfodol.

- 2.2.35 Gwnaed gwaith ymchwil cefndir pwysig hefyd gan RPG Gogledd Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Humber, ond nid mor ddwfn lle'r oedd strwythurau gofodol dan sylw. Yn Swydd Efrog a Humber, er enghraifft, yr oedd yr astudiaeth allweddol yn archwilio gallu aneddiadau a dewisiadau datblygu rhanbarthol, ac yng Ngogledd Orllewin Lloegr yr oedd y papurau i amlinellu'r pynciau allweddol yn cyfrannu at y sail o wybodaeth.
- 2.2.36 Yr oedd y dadansoddiad o setiau data manwl yn allweddol wrth gynhyrchu pob un o'r strategaethau gofodol a astudiwyd. Er enghraifft, yn yr Iseldiroedd mae cynlluniau gofodol fel rheol yn golygu data sy'n disgrifio'r sefyllfa yn y gorffennol mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol ac archwilio tueddiadau tebygol y dyfodol i atgyfnerthu'r strategaeth. Ar lefel Ffederal yn yr Almaen mae tueddiadau datblygiad sy'n ymwneud â gofod yn ogystal â strategaethau a rhaglenni sy'n ymwneud â gofod wedi eu gosod allan yn y *Raumordnungsbericht*, adroddiad cynllunio gofodol sy'n cael ei gynhyrchu bob pedair blynedd.
- 2.2.37 Mae'n ymddangos yn yr ardaloedd hynny lle mae traddodiad hirach o gynllunio gofodol, fod cylch rheolaidd o gasglu data a dealltwriaeth eang o dueddiadau a phatrymau gofodol yn lleihau'r angen am raglenni ymchwil helaeth fel sydd wedi ei wneud yn Iwerddon. Fodd bynnag, mewn achosion fel Iwerddon lle nad oes hanes o weithgarwch felly ac ychydig wybodaeth am strwythurau gofodol, gall ystod o astudiaethau cefndir fod yn amhrisiadwy. Gall gwaith ymchwil felly ychwanegu at ddatblygu'r strategaeth, ond o bosibl yr hyn sydd lawn mor bwysig yw y gall helpu canolbwyntio'r ddadl ar y fframwaith gofodol priodol, a chynhyrchu cytundeb am yr hyn y gallai'r fframwaith ei wneud.
- 2.2.38 Gwneir dadansoddiad cefndir yn aml gan y corff sy'n cynhyrchu'r strategaeth ofodol, ond yn Lloegr ac Iwerddon defnyddir ymgynghorwyr i ddarparu mewnbyn arbenigol neu i ymgymryd â gweithgareddau na all y corff sy'n cynhyrchu ei wneud. Mae tuedd debyg yn yr Iseldiroedd i ychwanegu at adnoddau cyhoeddus prin gyda dadansoddiad annibynnol, arfer y credir ei fod yn rhoi mwy o hygyrdd i'r strategaeth sy'n cael ei llunio. Yn yr Almaen gwneir y rhan fwyaf o'r dadansoddi gan y cyrff cyfrifol oherwydd yr adnoddau mwy sydd ar gael ac oherwydd y traddodiadau arbennig yn yr Almaen.

#### *O ddadansoddi i weithredu*

- 2.2.39 Er bod y Strategaeth Ofodol Genedlaethol yn Iwerddon a datblygiad RPG yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr wedi eu seilio'n gadarn ar waith dadansoddi helaeth, nid oes yr un o'r enghreifftiau hyn yr ydym wedi eu hastudio wedi gwneud dim ond gosod allan fframwaith dadansoddol. Ym mhob achos mae strategaeth ofodol wedi ei datblygu sydd, i raddau mwy neu lai, yn ffafrio rhai patrymau gofodol o ddatblygu anheddiad neu ddatblygiad economaidd, er enghraifft.
- 2.2.40 Mewn rhai achosion mae'r strategaeth wedi ei nodi'n fras ac nid yw'n benodol i leoliad, gan restru meini prawf, fel yn RPG Swydd Efrog a Humber, er enghraifft, ar gyfer barnu cynigion datblygu. Mewn achosion eraill mae strategaeth ofodol fwy penodol wedi ei datblygu sy'n nodi lleoliad pegynau twf, ardaloedd gwarchod, coridorau cludiant ac yn y blaen y gellir datblygu cynigion polisi integredig o'u cwmpas. Mae hyn yn sicr yn wir yn yr achosion a astudiwyd yn y Lander yn yr

Almaen. Yn yr enghraifft hon, mae'r strategaeth ofodol yn ddatganiad cadarn o fwriad ond yn dibynnu'n fras ar ddarparwyr eraill i weithredu ei darpariaethau.

- 2.2.41 Mewn un achos a archwiliwyd yn yr astudiaeth hon, mae strategaeth ofodol wedi symud ymhellach ar hyd y continwwm dadansoddi-gweithredu. Yn achos Berlin-Brandenburg yn yr Almaen, nodir prosiectau allweddol ar gyfer pob un o'r nodau craidd, gan ddangos un o'r dulliau allweddol i weithredu'r strategaeth ofodol.

*Graddau'r ymgynghori a wnaed*

- 2.2.42 Mae ymgynghori'n agwedd allweddol o'r rhan fwyaf o'r strategaethau gofodol a astudiwyd, er y gall y ffurf a'r graddau amrywio. Yn yr Iseldiroedd un o nodweddion y system cynllunio gofodol yw creu cytundeb ar bob lefel ofodol a rhwng yr holl actorion (gofodol) perthnasol (a elwir yn Poldermodel). Un peth sy'n nodweddiadol o arfer cynllunio gofodol yn yr Iseldiroedd yw'r angen i gael cytundeb rhwng sefydliadau'r llywodraeth a chyrrff cynrychioli, gan gynnwys cyrrff gwirfoddol, cymunedol neu yn y sector preifat.
- 2.2.43 Ar lefel genedlaethol, bydd y Gweinidogion cyfrifol yn ymgynghori â haenau is y llywodraeth, fel rheol yr awdurdodau rhanbarthol dan sylw, y byrddau dwr a'r awdurdodau taleithiol mewn rhai achosion. Bydd y Cyngor Taleithiol yn ymgynghori â'r Comisiwn Cynllunio Gofodol Taleithiol, awdurdodau taleithiol cyfagos, y bwrdeistrefi, y byrddau dwr a'r Gweinidogion perthnasol, a'r awdurdodau ar draws y ffin genedlaethol yn achos rhanbarthau ar y ffin. Bydd ymgynghori ar lefel leol 'lle bydd angen' gyda chyrrff cyhoeddus, budd-ddeiliaid a grwpiau sydd â diddordeb.
- 2.2.44 Yn Lloegr, mae RPG hefyd yn agored i ymgynghori eang a helaeth, mewn proses lle caiff y gofynion isaf eu gosod i lawr ar lefel genedlaethol. Yng Ngogledd Orllewin Lloegr trefnwyd ymarferiadau ymgynghori ar wahanol adegau yn y broses o ddatblygu RPG. Cafwyd ymarfer ymgynghori cychwynnol yn cynnwys y Dewisiadau Strategol, a chynhyrchwyd papurau Pwnc ar ddechrau'r broses. Yr oedd hyn yn anelu'n bennaf at fudd-ddeiliaid lleol a rhanbarthol, fel yr awdurdodau lleol a chyrrff cynrychioli. Dilynwyd hynny gan ymarferiadau ymgynghori wedi eu targedu i roi sylwadau ar ddrafftiau amlinellol yr RPG. Yn olaf, bu ymgynghori cyhoeddus eang ar ddrafft yr RPG.
- 2.2.45 Mae ymarferiadau ychwanegiadol a chynyddol felly yn helpu datblygu cytundeb am yr agweddau allweddol yn y strategaeth, yn ogystal â gwella dealltwriaeth am yr hyn y bwriedir i'r strategaeth ei gyflawni. Dilynodd Swydd Efrog a Humber lwybr tebyg, ac mae Gorllewin Canolbarth Lloegr hefyd wedi dechrau trefnu ymarferiadau ymgynghori cynnar.
- 2.2.46 Yn Iwerddon, mae proses ymgynghori ffurfiol ar y gweill am y dewisiadau sy'n rhaid eu gwneud o fewn y strategaeth ofodol, a chyfarfu fforwm o fwy na 250 o fudd-ddeiliaid am ddiwrnod ar gyfer ymarfer i gynllunio sefyllfa. Nid oes rhaid i ymgynghori ddod ar ôl y digwyddiad – gall hefyd helpu i ddatblygu'r dewisiadau a'r syniadau sy'n cael eu datblygu ymhellach wedyn yn fframwaith integredig. Yn Iwerddon mae grwp o arbenigwyr hefyd wedi eu galw ynghyd i roi cyngor am y broses o gynhyrchu'r strategaeth a'i chynnwys. Mae'r grwp hwn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tu allan i Iwerddon, sy'n gwneud cyfraniad gwahanol i'r broses i'r hyn a geir o fewn y wlad. Mae pum fforwm ymgynghorol wedi eu cychwyn hefyd i sicrhau cynrychiolaeth y grwpiau hynny sydd â diddordeb allweddol. Dyma'r fforymau:

- Ar gyfer Rhanbarth Ffin, Canolbarth a Gorllewin Lloegr
- Ar gyfer Rhanbarth De a Dwyrain Lloegr
- Ar gyfer y partneriaid cymdeithasol
- Ar gyfer datblygiad cynaliadwy
- Ar gyfer cyrff proffesiynol a thechnegol

2.2.47 Mewn cyferbyniad, mae llai o draddodiad o ymgynghori yn yr Almaen, er bod ymdrechion glew yn Berlin-Brandenburg i annog trigolion a budd-ddeiliaid rhanbarthol a lleol i fod yn ymwybodol o'r strategaeth sy'n cael ei pharatoi, a cheisio cytuno â hi'n fras. Mewn gwirionedd, mae dogfennau cynllunio gofodol allweddol yn yr Almaen ar lefel Ffederal a Lander yn cael eu disgrifio fel dogfennau 'mewnol' nad ydynt yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol nac ar eu cyfer.

*A yw'r strategaeth yn destun arolwg annibynnol a/neu arfarniad cynladwyedd*

2.2.48 Mae RPG yn Lloegr yn destun arolwg annibynnol, ar ffurf Archwiliad Cyhoeddus, ac arfarniad cynladwyedd. Er bod y ddau beth yn weithgareddau ar wahân ac annibynnol, effaith y ddau yw bod yn fath o 'ataliad' ar gynnwys y strategaeth ofodol drwy ei rhoi o dan y chwyddwydr.

2.2.49 Yn yr Iseldiroedd mae'r asesiad annibynnol o'r strategaeth ofodol yn ddwysach fyth, a gofynnir i'r comisiwn cynllunio gofodol cenedlaethol a gwahanol siambrau'r Llywodraeth gymeradwyo'r strategaeth ar wahanol adegau. Ar y llaw arall, mae arolwg llai annibynnol yn yr Almaen oherwydd gweithredu egwyddor gwrthgerrynt, lle'r oedd gwahanol haenau'r llywodraeth i gyd wedi cymryd rhan wrth ei datblygu.

*Yr amserlenni ar gyfer datblygu'r strategaeth*

2.2.50 Mae'r amserlenni ar gyfer datblygu strategaeth ofodol yn dibynnu i raddau helaeth ar lefel y dadansoddi cefndir a wneir, ac yn bwysicach fyth ar gwmpas yr ymarfer ymgynghori. Un feirniadaeth o'r system cynllunio gofodol yn yr Iseldiroedd yw ei bod yn gallu cymryd llawer iawn o amser. Gall y drefn hirwyntog, gydag amrywiol bosibiliadau apelio, olygu y gall yr amser a gymer y cynllunio gofodol i gyd fod yn faith.

2.2.51 Mae Arweiniad Cynllunio Rhanbarthol yn Lloegr yn nodweddiadol yn cymryd tua 2.5 blwyddyn o'r penderfyniad cyntaf i'w ddiwygio tan y dyddiad pan gaiff ei gyflwyno gan yr Ysgrifennydd Gwladol (y Gweinidog cyfrifol). Yn Iwerddon amcangyfrifir bod yr amser a gymer y broses o baratoi'r strategaeth ofodol tua 2 flynedd.

*Trefn fonitro ac arolygu*

2.2.52 Er bod yr holl gynlluniau gofodol a astudiwyd yn agored i gael eu diwygio, ychydig fanylion sydd wedi eu nodi. Mae RPG ar gyfer Swydd Efrog a Humber a Gogledd Orllewin Lloegr yn dal i gael eu monitro oherwydd arweiniad y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn PPG 11, er y gall gweithdrefnau o'r fath fod wedi eu rhoi ar waith beth bynnag. Yn yr Almaen, caiff y *Raumordnungsbericht* a nodwyd eisoes ei gyhoeddi bob pedair blynedd, ond nid yw'n amlwg fod hwn yn rhan o fframwaith monitro cydlynol sy'n ychwanegu at ddatblygiad parhaus strategaethau gofodol.

### **3. Y CYD-DESTUN AR GYFER FFRAMWAITH CYNLLUNIO GOFODOL CENEDLAETHOL I GYMRU**

#### **3.1 Cyflwyniad: y cyd-destun ar gyfer NSPF**

3.1.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â chyd-destun paratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Llwyddwyd i ddeall y cyd-destun ar gyfer NSPF i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Arolygu systematig o bolisi presennol a pholisi newydd y Cynulliad Cenedlaethol, a dogfennau polisi detholedig eraill, gyda phwyslais ar benderfynu dimensiwn gofodol pendant a goblygedig polisïau;
- Arolygu mentrau cynllunio gofodol Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru a gogledd-orllewin Ewrop;
- Ymgynghori â chyrff dethol, asiantaethau a chyrff cynrychioli yng Nghymru i sefydlu disgwyliadau presennol NSPF.

3.1.2 Mae dealltwriaeth eang a chefnogaeth i'r NSPF yn cael eu hystyried yn hanfodol i'w dderbyniad a'i ddylanwad. Mae'r ymchwil yn cadarnhau'r gefnogaeth gyffredinol ymysg cyrff sydd â diddordeb yng Nghymru i baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Mae'n amlwg, fodd bynnag, y bydd gwerthuso NSPF yn dibynnu ar ffurf, cynnwys ac, yn y pendraw, ar ddefnydd ymarferol y fframwaith. Mae'r cysyniad o gynllunio gofodol yn dod yn fwy cyfarwydd ac yn cael ei ddeall yn well, er mai yn ddiweddar y daeth y cysyniad yn ystyrlon o ran ei berthnasedd i Gymru. Er gwaethaf hyn, ni lawn ddeallwyd ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, a ffurfiau a dulliau posib y Fframwaith, gan yr holl weithredwyr y bydd fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol yn debyg o fod yn uniongyrchol berthnasol iddynt.

#### **3.2 Diben a swyddogaeth NSPF**

3.2.1 Mae diben NSPF wedi'i nodi yn <http://www.gwellcymru.com>, cynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel "pennu cyd-destun clir ar gyfer datblygu cynaliadwy ac ansawdd amgylcheddol". Mae'r rhaglen ymchwil wedi canfod gwahanol ddehongliadau a disgwyliadau o swyddogaeth(au) posib NSPF sy'n ychwanegu manylder at y diben a nodwyd yn ffurfiol. Y swyddogaethau canlynol a fynegwyd yn fwyaf clir yn ystod yr ymchwil:

- a) Gosod cyd-destun gofodol ar gyfer gweithgarwch a pholisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, gallai'r fframwaith weithredu i wrthsefyll tueddiadau canfyddedig tuag at blwyfoldeb mewn polisi a gweithgarwch arall gan y llywodraeth.
- b) Darparu fframwaith strategol, glir ar gyfer buddsoddi, dyrannu adnoddau a phenderfyniadau datblygu.
- c) Egluro dimensiwn gofodol gwahanol bolisïau a strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn ffordd sy'n cydnabod yr effaith wahanol mae polisïau'r Cynulliad yn ei gael mewn gwahanol rannau o Gymru.
- ch) Nodi a mynegi natur gwahanol feysydd swyddogaethol yng Nghymru.

3.2.2 Yn achos y swyddogaeth gyntaf, un agwedd bosib i'r NSPF fyddai annog ystyriaeth fanwl o'r cyd-destun Ewropeaidd a byd-eang y mae gwaith datblygu polisi yng Nghymru yn rhan ohono (gweler isod). At hyn, gallai fframwaith hefyd bwysleisio

cysylltiadau swyddogaethol ar draws ffiniau cenedlaethol a rhanbarthol traddodiadol, gydag ystyriaeth arbennig i'r cysylltiadau economaidd a thrafnidiol gydag Iwerddon a rhanbarthau Lloegr.

- 3.2.3 Swyddogaeth bosib bwysig i NSPF yw darparu fframwaith clir ar gyfer buddsoddi, dyrannu adnoddau a phenderfyniadau datblygu. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, gallai'r fframwaith nodi cyfleoedd strategol a chyfyngiadau ar wahanol ffurfiau datblygu. Yn dilyn hyn, gallai hefyd ddangos tuedd glir y Cynulliad tuag at wahanol ffurfiau datblygu mewn ardaloedd daearyddol penodol, boed hynny'n gadarnhaol neu negyddol. Gellid defnyddio hyn wedyn fel arf i lywio penderfyniadau ceisiadau galw-i-mewn ac apeliadau cynllunio yn y system cynllunio defnydd tir.
- 3.2.4 Mae'r drydedd swyddogaeth, sef egluro natur ofodol ac effaith wahaniaethol polisiâu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ymddangos yn agosach at y swyddogaeth ffurfiol a nodwyd yn Gwell Cymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, gallai'r NSPF weithredu fel arf i asesu ymarferoldeb a chysondeb gwahanol bolisiau a strategaethau'r Cynulliad mewn perthynas â'i gilydd, o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy. At hyn, gallai gyflawni rôl bendant o ran nodi ble y gellir defnyddio gwahanol strategaethau mewn dull cyflenwol i helpu cyflawni'r amcanion. O'i defnyddio yn y ffordd hon, gellid ymestyn y fframwaith i gynnwys strategaethau corfforol y gwahanol asiantaethau Cymru gyfan sy'n gweithredu o dan gyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.2.5 Roedd yr ymchwil yn cynnwys gwerthusiad o rychwant eang o strategaethau a dogfennau polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod cyfnod dechreuol y prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys prif ddatganiadau polisi'r Cynulliad (er enghraifft, Gwell Cymru, Dysgu Byw'n Wahanol, a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol) a nifer o ddatganiadau polisi eraill a ystyrir yn berthnasol i baratoi fframwaith cynllunio gofodol (er enghraifft, y Fframwaith Gludiant, y Strategaeth Dai Genedlaethol, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, y Strategaeth Wastraff). Dangosodd yr arolwg nad oedd yr holl ddogfennau y mae NSPF yn berthnasol iddynt yn ei grybwyll nac yn rhoi pwyslais priodol iddo fel cyfrwng ar gyfer integreiddio a gweithredu'r polisi yn effeithiol. Mewn ychydig o achosion, er enghraifft Dysgu Byw'n Wahanol, mae yna gyfeiriad pendant at yr NSPF. Dosbarthodd yr arolwg y strategaethau a'r polisiâu perthnasol i ddau gategori: i) y rhai sy'n mynegi ac yn cydnabod dimensiwn gofodol clir a phendant; a ii) y rhai nad ydynt yn mynegi neu gydnabod dimensiwn gofodol clir, ond eto sydd â goblygiadau gofodol pwysig a phendant. Dangosodd yr arolwg fod arolygu a choethi ymhellach bolisiau'r Cynulliad yn hybu mwy o ymwybyddiaeth o gynnwys gofodol ac effeithiau polisiâu.
- 3.2.6 Swyddogaeth bosib arall i NSPF, sydd â chysylltiad clòs ag asesu effaith wahaniaethol polisi'r Cynulliad, yw adnabod a nodi gwahanol feysydd swyddogaethol yng Nghymru. Wrth wneud hyn, gall y fframwaith amlinellu'r materion strategol sydd angen sylw ar lefel ranbarthol, naill ai drwy bwyllgorau rhanbarthol y Cynulliad neu gan awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd.

### **3.3 Cwmpas NSPF**

- 3.3.1 Mae'n amlwg fod cyrff sydd â diddordeb yng Nghymru yn ystyried mai'r dull thematig yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer paratoi NSPF. Dylai'r fframwaith ganolbwyntio ar adnabod a nodi cysylltiadau swyddogaethol a chysylltiadau gofodol lle mae dull pwnc-seiliedig plwyfol yn amhriodol. Er bod dull thematig yn cael ei ffafrio'n amlwg, mae'n ymddangos fod nifer o weithredwyr yn cael peth anhawster i ddiffinio themâu priodol. Nodwyd y 'themâu' canlynol fel rhai addas i'w hystyried:

- Gweithgarwch economaidd: yn cynnwys pryderon traddodiadol cysylltiedig â datblygu economaidd, wedi'u hategu gan ddulliau gwahanol i adnabod materion cynhyrchiant a chyflogaeth ehangach.
- Ansawdd amgylcheddol: yn cynnwys rheoli adnoddau dwr; rheoli gwastraff; ansawdd yr aer.
- Hygyrchedd: yn cynnwys materion cludiant; mynediad at wasanaethau a chyflogaeth.
- Iechyd a chynhwysedd cymdeithasol (neu wedi'i fynegi'n fwy thematig fel 'lles cymunedol');
- Ardaloedd canolbwyntio datblygu: gallu nodi'n ofodol naill ai mewn dull polysentrig neu ddull 'coridor', gyda phwyslais arbennig ar glystyrau diwydiannol uwch-dechnolegol a safleoedd buddsoddi strategol.

3.3.2 Nid yw'r ddarpariaeth o dargedau pendant mewn perthynas â'r themâu uchod ar gyfer rhanbarthau neu ardaloedd daearyddol penodol a welir yn yr NSPF yn cael cefnogaeth gyffredinol y budd-ddeiliaid.

### 3.4 Cysylltiad â strategaethau eraill

3.4.1 Mae'r gwahanol asiantaethau a chyrrff yng Nghymru yn disgwyl i'r NSPF gysylltu â chyfres o strategaethau a dogfennau polisi eraill ar lefelau gofodol amrywiol. Mae'r lefelau hyn yn cynnwys:

- Lefel Ewropeaidd;
- Lefel drosiannol;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Lefel Cymru gyfan;
- Lefel leol.

3.4.2 Yn ogystal â'r cysylltiad rhwng yr NSPF a pholisïau a strategaethau ar y gwahanol lefelau hyn, mae'r ymchwil yn aml wedi pwysleisio pwysigrwydd sefydlu cysylltiad â'r system cynllunio defnydd tir statudol ac felly fe roddir ystyriaeth fanwl i hyn.

#### *a) Lefel Ewropeaidd*

3.4.3 Dangosodd yr ymchwil bod disgwyl i'r NSPF egluro'r cyd-destun rhyngwladol ac Ewropeaidd ar gyfer Cymru i osgoi dulliau rhy 'fewnwladol' o wneud polisïau yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai'r fframwaith roi sylw a chwestiynu'r cysyniadau sy'n deillio o'r Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd (ESDP) a'u fframio o fewn cyd-destun Cymreig. Fodd bynnag, ni nododd y rhai a holwyd yr ESDP fel y ddogfen lywio orau tuag at baratoi NSPF. Nid oedd yr ESDP yn cael ei ystyried ychwaith fel dogfen sy'n darparu unrhyw ddull cyfarwyddol ar gyfer paratoi NSPF nac ar gyfer ei gynnwys. Dylai'r NSPF hefyd alluogi gwell dealltwriaeth o'r angen am gael mynediad i Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'u gweithrediad. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt wynebu'r goblygiadau i Gymru o ehangu cynyddol yr Undeb Ewropeaidd ac ymrwymiad aelod-wladwriaethau ychwanegol.

#### *b) Lefel drosiannol*

3.4.4 Mae disgwyl i'r NSPF hefyd adlewyrchu'r gyfres o gynlluniau sy'n codi o raglenni Ewropeaidd sy'n canolbwyntio ar drefniadau cydweithredol Traws-genedlaethol.

Mae'r rhain yn cynnwys Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd a chynlluniau INTERREG IIC A IIB. Dulliau Ewropeaidd o lunio polisiâu sy'n mynegi ardaloedd swyddogaethol y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol ddylai lywio'r NSPF. Mae Cymru'n rhan o ddwy ardal o'r fath: Ardal Metropolitan y Gogledd-Orllewin ac Ardal Môr yr Iwerydd. Dylid rhoi sylw arbennig i'r cysylltiadau swyddogaethol rhwng Cymru, Iwerddon, a rhanbarthau Lloegr wrth baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol.

*c) Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

3.4.5 Mae yna gytundeb eang ymysg y cyrff a'r bobl a holwyd y dylai NSPF gael ei arwain yn bennaf gan y weledigaeth a fynegwyd ym mhrif strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a pholisi cenedlaethol cysylltiedig. O ganlyniad, byddai'r fframwaith wedi'i seilio ar y tair blaenoriaeth benodedig o ddatblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. O'r tair yma, mae'n ymddangos mai Gwell Cymru sy'n pwysleisio rôl yr NSPF o sefydlu cyd-destun ar gyfer datblygu cynaliadwy ac ansawdd amgylcheddol. At hyn, un o swyddogaethau allweddol NSPF fydd integreiddio polisi'r Cynulliad a darparu mynegiad gofodol o'r polisi hwnnw. Mae'r ystod o bolisiâu a strategaethau a nodwyd yn cynnwys:

- Gwell Cymru;
- Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy;
- Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol;
- Y Strategaeth Adnoddau Dwr;
- Y Strategaeth Wastraff;
- Y Strategaeth Gludiant;
- Y Strategaeth Ansawdd Aer;
- Y Strategaeth Dai Genedlaethol;
- Y Strategaeth Fioamrywiaeth.
- Polisi cynllunio, yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru

Dangosodd arolwg o nifer o'r strategaethau hyn yn ystod cyfnod dechreuol yr ymchwil eu bod yn cynnwys amrywiaeth o elfennau gofodol pendant a goblygedig (gweler uchod).

*ch) Lefel Cymru gyfan*

3.4.6 Yn ogystal â chyflawni swyddogaeth integreiddiol mewn perthynas â gwahanol strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gallai NSPF integreiddio'r dimensiwn gofodol i gynlluniau corfforaethol y gwahanol asiantaethau sy'n gweithredu ar lefel Cymru gyfan (er enghraifft, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd). Disgwylir i'r fframwaith hefyd roi sylw i'r sectorau preifat a gwirfoddol a darparu fframwaith mynegol, briodol ar gyfer penderfyniadau buddsoddi a darparu gwasanaeth..

*d) Lefel leol*

3.4.7 Mae'r graddau mae NSPF yn rhoi sylw i faterion lleol a rhanbarthol yng Nghymru wedi'i nodi fel mater pwysig i'w ystyried. Nodwyd bod y fframwaith yn cynnig cyd-destun ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu unedol a chydweithio gan awdurdodau lleol ar faterion strategol. Nodwyd ei bod hi'n bwysig sefydlu perthynas gyda



gweithredwyr yn lleol ar gyfer sicrhau bod NSPF, a pholisi'r Cynulliad yn fwy cyffredinol, yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

*dd) System gynllunio defnydd tir statudol*

- 3.4.8 Yn ogystal â'r berthynas rhwng yr NSPF a phob un o'r lefelau a nodwyd, mynegwyd pryderon pendant y dylai'r NSPF sefydlu perthynas glir â'r system cynllunio defnydd tir statudol. Ar lefel Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i asiantaethau cysylltiedig, disgwylir i'r fframwaith wneud yn amlwg ei gysylltiad â Chynllunio Polisi Cymru ac â phenderfyniadau ceisiadau galw-i-mewn ac apeliadau. Ar lefel leol, bydd y fframwaith yn darparu cyd-destun ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu unedol a chydweithio rhwng awdurdodau cynllunio lleol ar faterion strategol. Roedd sawl person a holwyd yn dymuno peidio gweld sefydlu perthynas ffurfiol ac uniongyrchol rhwng NSPF a system gynllunio defnydd tir statudol. Nodwyd y byddai problem o bosib gyda sefydlu cysylltiadau ffurfiol â gwahanol elfennau o'r system gynllunio defnydd tir statudol.

### **3.5 Statws NSPF**

- 3.5.1 Yn ystod yr ymchwil, nodwyd bod statws Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol yn fater anodd sy'n gofyn am ystyriaeth sensitif. Mynegodd gwahanol asiantaethau a gweithredwyr ddisgwyliadau cwbl groes i'w gilydd ar statws dewisedig NSPF. Mae'n amlwg fod y rhan fwyaf am weld yr NSPF fel dogfen anstatudol, er fod lleiafrif yn anghytuno â hyn. Awgrymwyd y dylai'r NSPF gael statws tebyg, neu statws cyfwerth o leiaf, â pholisiau a strategaethau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nodwyd hefyd ei bod hi'n bwysig mynegi statws y fframwaith yn glir. Roedd rhai sylwadau'n cyfeirio at y ffaith mai pwerau gweithredu uniongyrchol cyfyngedig sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad, awgrymwyd y dylai NSPF ddatblygu ar sail cytundeb ac y dylai fod ar ffurf y byddai'r gwahanol asiantaethau 'gweithredu' yng Nghymru (yn cynnwys awdurdodau lleol) yn teimlo y gallent ei ardstyio neu ei gefnogi.

### **3.6 Cyflwyniad a fformat NSPF**

- 3.6.1 Nododd y bobl a holwyd ynglyn â'u disgwyliadau gan NSPF ddau ddull eang o fynd ati i gyflwyno fformadu'r fframwaith:
- Dogfen bolisi yn nodi gwahanol batrymau gofodol drwy destun, mapiau a deunydd darluniadol (yn ei hanfod, fframwaith mynegiannol, wedi'i gyfeirio'n bennaf at gynulleidfa allanol);
  - Rhaglen gyfrifiadurol ar gyfer archwilio a phrofi gwahanol ddewisiadau polisi (yn ei hanfod, fframwaith model, wedi'i gyfeirio at gynulleidfa o wneuthurwyr polisi mewnol).
- 3.6.2 Yn y cyntaf o'r rhain, disgwylir y bydd y fframwaith yn cynnwys deunydd diagramatig a darluniadol priodol. Byddai'r deunydd yma'n cynnwys gwybodaeth ar gyd-destun gofodol, a nodi cyfleoedd strategol a chyfyngiadau (er enghraifft, ar ardaloedd perygl llifogydd, cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddol) ar wahanol gyfraddau a datgrynhai gofodol. Mynegwyd yn glir na ddylai'r fframwaith geisio nodi 'prif gynlluniau *end-state*' gan fod dull o'r fath yn anymarferol, amhriodol ac yn debyg o lesteirio gwaith paratoi a gweithredu'r fframwaith. Serch hynny, gallai fframwaith nodi ardaloedd daearyddol perthnasol heb fynd i'r perygl o fod yn rhy gyfarwyddol. Dylai'r fframwaith gynnwys deunydd ysgrifenedig ar gyfer dibenion

dadansoddi ac i helpu dehongliad a dealltwriaeth. Gallai'r fframwaith gynnwys strategaeth graidd, yn seiliedig ar ystod amser o 15-20 mlynedd, sy'n cynnwys testun ysgrifenedig a diagramau.

- 3.5.3 Mae'r ail ffurf, sef fframwaith cyfrifiadurol i brofi gwahanol ddewisiadau polisi, yn cynnig dull gwahanol i ffurf draddodiadol dogfen bolisi. Roedd y rhai oedd yn dychmygu dull o'r fath yn amlwg yn ystyried y fframwaith fel offeryn gweithredol yn hytrach na chynnyrch terfynol. Byddai fframwaith a ddyluniwyd ar gyfer modelu effeithiau gofodol gwahanol ddewisiadau polisi yn galluogi profi sefyllfaoedd, er bod rhai yn amau y gallai dull o'r fath fod yn rhy gyfarwyddol o ran effeithiau gofodol.

### 3.7 Cyd-destun data ar gyfer paratoi NSPF

- 3.7.1 Mae gofyn i'r ymchwil roi cyngor ar ofynion data ac ymchwil ar gyfer paratoi NSPF. Mae'r adran hon yn ymwneud â nodi cyfres o ddangosyddion neu ffynonellau data a all fod yn ofynnol i lywio gweithrediad fframwaith cynllunio gofodol yng Nghymru. Mae'r broses hon wedi dilyn dull yn seiliedig ar faterion sy'n amlygu'r data sydd ar gael, neu'n nodi bylchau a dangosyddion ffafriol posib, mewn nifer o feysydd allweddol, yn bennaf:

- Cludiant
- Datblygu Economaidd
- Tai
- Poblogaeth ac Ymfudo
- Dieithrwch Cymdeithasol
- Cynllunio Gwastraff
- Diwylliant
- Twristiaeth
- Ansawdd Amgylcheddol
- Cynladwyedd
- Anghenion trefol a gwledig.

- 3.7.2 Mae'r tîm prosiect wedi ceisio nodi setiau data allweddol a bylchau strategol o fewn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen cynnal arfarniad mwy cynhwysfawr o ofynion data (yn cynnwys asesiad o faterion fel graddfa ofodol, amserlen, fformat y data, defnydd ayb) mewn unrhyw waith paratoi pellach ar gyfer Fframwaith Cynllunio Gofodol i Gymru.

- 3.7.3 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd i baratoi'r elfen *gofynion data ac ymchwil* hon o'r ymchwil yn cynnwys dwy ran. Yn gyntaf, rhoddwyd sylw i'r materion allweddol a nodwyd uchod o ran y data presennol y gellid eu defnyddio gan wneuthurwyr polisi i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. Edrychwyd am fylchau amlwg yn y data presennol sydd ar gael o fewn pob mater allweddol, ac os oedd bylchau, awgrymwyd nifer o 'fesurau ffafriol' ar gyfer mynd i'r afael â'r diffygion hyn. O ganlyniad, ffurfiwyd matrices o ofynion data o fewn yr holl faterion allweddol ac fe'i dangosir yn Nhabl 3.1. Mae'n bwysig pwysleisio fod Tabl 3.1, o fewn cyfyngiadau'r ymchwil bresennol, yn cynrychioli'r 'ymchwiliad cyntaf' i'r setiau data allweddol sydd ar gael a'r bylchau mwyaf arwyddocaol. Byddai angen ymchwil bellach i ychwanegu gwybodaeth gyd-destunol a gweithredol at y dangosyddion a gyflwynwyd, ac yn bwysig, i asesu pob un yn ei dro o ran materion 'ansawdd' fel cadernid, defnydd, a pherthnasedd i ddiben fframwaith cynllunio gofodol.

### 3.8 Casgliadau

- 3.8.1 Mae Adran 3 wedi diffinio'r cyd-destun gweithredol ar gyfer NSPF ac wedi nodi disgwyliadau ystod o gyrrff perthnasol a phobl eraill sydd â diddordeb. Y canlynol yw'r casgliadau allweddol sy'n codi o'r cam hwn yn y prosiect ymchwil:

- Mae yna ddealltwriaeth gynyddol ynglyn â pherthnasedd cynllunio gofodol ac fe geir cefnogaeth hefyd i baratoi NPSF ymysg cyrff perthnasol yng Nghymru;
- Disgwylir i'r NSPF ddiffinio y cyd-destun Ewropeaidd ehangach ar gyfer gweithgarwch yng Nghymru; i integreiddio polisiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a mynegi gwahanol effaith a dimensiwn gofodol gwahanol bolisiau a strategaethau'r Cynulliad;
- Yr hoff ddewis yw triniaeth thematig o gynnwys NSPF;
- Disgwylir i'r fframwaith ddiffinio ei berthynas â'r system gynllunio statudol o fewn cyd-destun ei swyddogaethau ehangach fel a nodwyd uchod;
- Gwell fyddai rhoi statws anstatudol i'r fframwaith;
- Gall cyflwyniad y fframwaith fod ar ffurf fynegiannol neu fodel;
- Gellir datblygu'r categorïau data allweddol sy'n berthnasol i baratoi NSPF;
- Mae gan fudd-ddeiliaid perthnasol ddisgwyliadau uchel o'r cyfle i gyfrannu at y broses o baratoi NSPF.

**Tabl 3.1 : Matrics Gofnion Data Materion-seiliedig**

<b>MATERION ALLWEDDOL</b>	<b>DATA PRESENNOL</b>	<b>BYLCHAU SY’N BOSIB EU NODI A MESURAU DEWISOL</b>
<b>Cludiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidyn perchnogaeth car yng Nghyfrifiad y Boblogaeth</li> <li>• Gwybodaeth am oed ceir (ar lefel ALI yn unig) (gan y DVLA)</li> <li>• Gwybodaeth am amserlenni bws a thrên lleol</li> <li>• Data Llif Bws/Data Llif Trên (Lluniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fapiau Data Cludiant ar lefel Cymru gyfan – GIS seiliedig)</li> <li>• Mynediad i fesurau gwasanaethau – e.e. y rhai a ddefnyddir yn y Mynegai Aml-amddifadedd newydd.</li> <li>• Cyfrif Mynegeion Perifferol at lefel NUTS 3 erbyn DGXVI</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen gwybodaeth genedlaethol gyson am gludiant cyhoeddus</li> <li>• Cost y gwasanaeth ddim ar gael yn hawdd ac efallai’n sensitif yn fasnachol</li> <li>• Angen datblygu ystod ehangach o ddangosyddion hygyrchedd a pherifferaledd gyda ffynonellau data ar wahân</li> <li>• Argaeledd ceir preifat gan deuluoedd</li> </ul>
<b>Datblygu Economaidd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifiad Poblogaeth</li> <li>• Cyfrifiad cyflogaeth</li> <li>• Arolwg o’r Gweithlu</li> <li>• Data GDP ar NUTS 3.</li> <li>• Cyfrifiadau Hawlwyr Budd-dal Diweithdra (gan yr ONS)</li> <li>• Data Budd-daliadau (e.e. Ategiad Incwm, Lwfans Anabledd, Credyd Teulu, niferoedd sy’n dilyn Y Fargen Newydd – i gyd ar Lefel Etholaeth)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• GDP yn ôl ardal leol</li> <li>• Cwmnïau newydd yn ôl ardal leol</li> <li>• Cyfansoddiad sectorol GDP yn ôl ardal leol</li> <li>• Cyfraddau twf cwmnïau</li> <li>• Mesurau cyflogaeth cuddedig, tymhorol a thangyflogaeth</li> </ul>
<b>Tai</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ar Lefel Etholaeth)</li> <li>• Cyfrifiad Poblogaeth – Data cartrefi</li> <li>• Ystadegau Tai Cymru – e.e. ar dai cymdeithasol, digartrefedd (lefel All)</li> <li>• Arolygon Anghenion Tai Cyfnodol</li> <li>• Setiau data Ffurflen Budd-dal Tai (Mae pob ALI yn cadw’r rhain i lawr i lefel cod post)</li> </ul> <p>Tai y gellir eu fforddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefelau Rhent ar gyfartaledd yr ALI</li> <li>• Cronfa ddata tenantiaeth a gwerthiant cymdeithasau tai Cymru (data gosodiadau yn ôl rhent a math o gartrefi)</li> <li>• Data prisiau tai (e.e. arolygon prisiau’r Halifax / Nationwide)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• WHCS – yn seiliedig ar samplau (camgymeriadau posib)</li> <li>• Nifer o setiau data ar gael ar lefel ALI yn unig, e.e. rhent ar gyfartaledd, prisiau tai</li> <li>• Dim data ar incwm cartrefi (ac eithrio o arolygon a’r defnydd o ddirprwyon o’r Cynulliad)</li> <li>• Dim data ar gynilion a dyled cartrefi</li> </ul>

<b>Dieithrwch Cymdeithasol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifiad ar gyfer data ar grwpiau oedran</li> <li>• Ymchwil ansoddol – astudiaethau ethnograffig megis Arolygon o Ffyrdd o Fyw Gwledig</li> <li>• Cartrefi un rhiant</li> <li>• Poblogaeth oedrannus</li> <li>• Darpariaeth / mynediad i wasanaethau cyhoeddus</li> </ul> <p>Gellir defnyddio ystod gyfan o setiau data i archwilio ffasedau o'r prosesau dieithrwch cymdeithasol h.y. dangosyddion tai, poblogaeth, gwasanaethau, economaidd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfranogiad cymunedol – mesurau cyfalaf cymdeithasol</li> <li>• Mesurau strwythurau cymunedol</li> <li>• Gwybodaeth am fentrau adfywio cymunedau</li> </ul>
<b>Cynllunio Gwastraff</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – Aseiad Rheoli Gwastraff strategol (2000)</li> <li>• CCC – Arolygon gwastraff bwrdeistrefol (blynyddol)</li> <li>• Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yng Nghymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen sicrhau bod data gwastraff ar gael at lefel AL1 i alluogi cydweithio effeithiol rhwng yr awdurdodau lleol a grwpiau gwastraff rhanbarthol</li> </ul>
<b>Poblogaeth ac Ymfudiad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifiad Poblogaeth y DU – nodweddion Data poblogaeth</li> <li>• Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yr ONS</li> <li>• Ystadegau Ymfudo Arbennig – Cyfrifiad 1991</li> <li>• Blaenamcanion Poblogaeth Blynyddol</li> <li>• Data Genedigaethau a Marwolaethau – ystadegau marwolaethau/afiachusrwydd (CCC)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad oedran allfudo fesul ardal fach – yn enwedig y grwp ifanc â sgiliau</li> <li>• Defnydd posib o gofnodion iechyd (angen cydlynu cronfeydd cofrestr cleifion i fonitro ymfudo)</li> </ul>
<b>Diwylliant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifiad poblogaeth – cwestiwn iaith</li> <li>• Dosbarthiad ysgolion cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992</li> <li>• Arolygon unigol o weithgarwch Cymraeg ac economaidd – e.e. archwiliadau sgiliau'r TECs</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfyngiadau'r cwestiwn iaith Gymraeg yn y cyfrifiad</li> <li>• Angen traws-dabliadau safonol gyda SEG, SOC o'r Cyfrifiad</li> <li>• Niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn ôl oedran</li> <li>• Rhagolygon economaidd ar gyfer siaradwyr Cymraeg.</li> </ul>

<b>Twristiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Niferoedd twristiaeth, gwariant Twristiaeth</li> <li>Ystadegau Twristiaeth rhanbarthol y DU, niferoedd fu'n ymweld ag atyniadau penodol gan Fwrdd Croeso Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (rhanbarthau de, gogledd, gorllewin Cymru)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Data twristiaeth ar raddfa ofodol fanylach – e.e. Data niferoedd/gwariant ar lefel All.</li> </ul>
<b>Ansawdd Amgylcheddol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltiadau rhwng dangosyddion Iechyd a'r amgylchedd – e.e. Gwell Iechyd, Gwell Cymru, Data Arolwg Iechyd</li> <li>Newid hinsawdd – Gollyngiadau nwyon ty gwydr</li> <li>Llygredd Awyr – Dyddiau o lygredd awyr</li> <li>Cludiant – Lefelau Trafnidiaeth ar Ffyrdd</li> <li>Ansawdd Dwr – Afonydd o ansawdd da neu weddol</li> <li>Bywyd Gwyllt – Poblogaethau adar gwyllt</li> <li>Defnydd Tir – Cartrefi newydd wedi'u hadeiladu ar dir a oedd cyn hynny wedi ei ddatblygu (DETR, 1998)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dangosyddion ansawdd amgylcheddol yn creu problemau o ran mesur ar lefel gadarn a chyson. Nid yw nifer ohonynt ar gael yn hawdd ar lefel lleol.</li> </ul>
<b>Cynladwyedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dangosyddion 'Ansawdd Bywyd' (DETR, 1998). 4 prif thema: Twf economaidd a chyflogaeth uchel a sefydlog; cynnydd cymdeithasol sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion pawb; gwarchod yr amgylchedd yn effeithiol; a defnydd doeth o adnoddau naturiol</li> <li>Dangosyddion LGMB ar gyfer prosiect Agenda 21 Lleol 1996 – 13 thema allweddol sy'n bwysig i gynladwyedd: adnoddau a gwastraff; aestheteg; diwylliant; awdurdod; mynediad i sgiliau; byw heb ofn; mynediad; iechyd; gwaith boddhaol; anghenion dynol; anghenion lleol; bioamrywiaeth; llygredd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fel yn achos dangosyddion amgylcheddol, y problemau gyda dangosyddion cynladwyedd yn aml yw argaeledd a graddfa gofodol data a chysondeb ar draws nifer o newidynnau gwahanol.</li> </ul>
<b>Anghenion trefol/gwledig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dangosyddion Amddifadedd – e.e. Mynegai Aml-amddifadedd ar gyfer Cymru – i'w defnyddio fel Mynegai neu mewn 'parthau' ar wahân</li> <li>Mynediad i ddata gwasanaethau – pwysig (i wahanol raddau) mewn cyd-destunau trefol a gwledig</li> <li>Ystadegau Amaethyddiaeth CCC – cyflogaeth, lefelau cynhyrchu ayb. (lefel All)</li> <li>Patrymau anheddiad trefol – hierarchaethau anheddiad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pwysig gwahaniaethu rhwng dangosyddion anfantais trefol a gwledig</li> <li>Mae angen i fynediad i ddata gwasanaethau fod yn gyson ac yn gyfredol – angen archwilio technegau GIS sy'n coethi modelau o'r fath (modelau rhwydwaith neu grid-seiliedig)</li> <li>Ystadegau wedi'u diweddarau'n rheolaidd ar weithgarwch amaethyddol ar lefel ardaloedd bychain.</li> </ul>



## 4. Y DEWISIADAU AR GYFER DATBLYGU FFRAMWAITH GOFODOL I GYMRU

### 4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Mae'n amlwg o'r arolwg o astudiaethau achos yn Adran 2, o'r drafodaeth o gyd-destun polisi Cymru a gynhwyd ym Mhapur 2 yr Adroddiad Cynnydd, ac o'r cyfweiliadau gydag asiantaethau allweddol yn Adran 3, bod yna dri phrif gysylltiad yn effeithio ar gwmpas a chynnwys fframwaith gofodol cenedlaethol, sef cysylltiad fertigol, llorweddol ac ochrol. Mae *The UK Spatial Planning Framework: a Discussion* (2000) yn nodi bod y rhain yn diffinio 'hyfedredd sylfaenol' fframwaith gofodol cenedlaethol o ran:
- Cysylltiadau fertigol – rhwng haenau llywodraethu
  - Cysylltiadau llorweddol – rhwng gwahanol faterion a sectorau
  - Cysylltiadau ochrol – cydlynw pwysau cymdeithasol-economaidd a pholisïau gyda dimensiynau gofodol
- 4.1.2 Yn ogystal, mae mater 'statws gwleidyddol' fframwaith gofodol cenedlaethol yn hanfodol, yn penderfynu i ba raddau y gall polisïau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith gofodol ddylanwadu, gysylltu neu ymyrryd. Fel a nodwyd yn Adran 3, roedd y mwyafrif o'r rhai a holwyd o asiantaethau allweddol yn pryderu am y mater hwn, a dyma un o'r prif faterion hefyd a ddaeth i'r amlwg o'r seminar i fudd-ddeiliaid a gynhaliwyd yn Nhrefyclo.
- 4.1.3 Fodd bynnag, gellir trin y cysylltiadau hyn mewn ffyrdd hollol wahanol i'w gilydd o fewn gwahanol fethodolegau cynllunio gofodol, ac mae'r arolwg a gafwyd yn Adran 2 yn rhoi enghreifftiau o'r ystod eang iawn o ddulliau a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframweithiau cynllunio gofodol hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn nodi bod yna gytundeb cynyddol ynglyn â'r elfennau methodolegol cyffredin ar gyfer datblygu strategaeth ofodol, er bod y cynnwys yn aml yn gwahaniaethu'n sylweddol. Gellir gweld mwy o wahaniaethau yn y broses o ddatblygu strategaethau o'r fath. Yn arbennig, cafwyd tuedd amlwg i ddatblygu dulliau deinamig a hyblyg, gan ymateb i'r trawsnewidiadau cyflym iawn yn swyddogaeth cymdeithasol-economaidd cenhedloedd, tiriogaethau a rhanbarthau o fewn yr Undeb Ewropeaidd.
- 4.1.4 Mae'n hanfodol, felly, datblygu methodoleg cynllunio gofodol sy'n ymatebol i'r broses hon o newid deinamig, ac sy'n berthnasol i gyd-destun penodol. Yn y cyd-destun Cymreig, dylai methodoleg cynllunio gofodol priodol roi sylw i natur arbennig y cyfuniad o gysylltiadau fertigol, llorweddol ac ochrol sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro yn gofyn am sylw i gwestiwn statws gwleidyddol fframwaith gofodol o'r fath. (Mae'n arwyddocaol, felly, fod y mater hwn wedi'i bwysleisio gan y rhai a holwyd o asiantaethau allweddol a chan fynychwyr y seminar budd-ddeiliaid).
- 4.1.5 Fel a nodwyd yn *The UK Spatial Planning Framework: A Discussion* yr RTPi, efallai fod ansicrwydd hefyd ynglyn â'r dehongliad o 'gynllunio gofodol'; a ddylid ei gyfyngu i gynllunio defnydd tir, neu fabwysiadu persbectif ehangach i gynnwys yr holl weithgareddau sydd â dimensiwn gofodol? Fe gofnodir bod y mater hwn yn destun pryder i nifer o fudd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd.



## 4.2 Ystyriaethau

4.2.1 Gan adlewyrchu'r gofyniad fod yn rhaid i fframwaith gofodol fod yn berthnasol i'w gyd-destun arbennig, mae nifer o egwyddorion sylfaenol yn ymddangos o'r dadansoddiad o ganfyddiadau astudiaethau achos yr adroddwyd arnynt yn Adran 2 ac o'r arolwg o bolisiau CCC yn yr Adroddiad Cynnydd Cyfamserol:

- bod y sail resymegol ar gyfer fframwaith gofodol wedi'i fynegi'n glir a'i osod o fewn yr amgylchiadau arbennig sy'n wynebu Cymru
- bod angen datblygu 'gweledigaeth' ofodol i Gymru
- bod y broses o ddatblygu'r fframwaith yn cael ei hystyried yr un mor bwysig â'r fframwaith ei hun, a bod y broses hon yn ddynamig, gan ddatblygu dros amser
- bod angen ystyried gwahanol sefyllfaoedd, er mwyn nodi ystod o ddewisiadau gwahanol ar gyfer y dyfodol.

4.2.2 Wrth chwilio am ddewisiadau gwahanol ar gyfer datblygu fframwaith gofodol i Gymru, gosodwyd pob un o'r elfennau methodolegol cyffredin a nodwyd yn Adran 2 (gweler Ffigwr 2.1) mewn cyfres o gamau rhesymegol, gyda gwahanol ystyriaethau ar gyfer pob cam. Mae'r ystyriaethau hyn yn deillio o arolwg o'r astudiaethau achos (a grynhowyd yn Adran 2) ac o ymatebion y budd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd (a grynhowyd yn Adran 3). Defnyddiwyd y rhain gyda'i gilydd i roi sylw i drefniad y cysylltiadau fertigol, llorweddol ac ochrol sy'n berthnasol i bob cam. Ym mhob cam, nodir y prif gasgliadau ynglyn â'r hyn a ddylid ei ystyried wrth wneud dewisiadau ar gyfer datblygu fframwaith gofodol.

## 4.3 Elfennau Methodolegol

### *Sail resymegol*

4.3.1 Mae angen sail resymegol sydd wedi'i mynegi'n glir ac sy'n cael ei derbyn yn gyffredinol i gyflwyno fframwaith defnyddiol a dylanwadol yn llwyddiannus. O'r ystyriaethau uchod, mae'n rhaid i amgylchiadau arbennig Cymru alw am fframwaith o'r fath. Ni all profiad rhywle arall awgrymu'r sail resymegol ar gyfer fframwaith gofodol yng Nghymru, ac ni ellir mabwysiadu sail resymegol oherwydd bod dogfennau polisi ehangach yn awgrymu hynny. Mae'n arwyddocaol yn hyn o beth bod yr arolwg o bolisiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mhapur 2 yr Adroddiad Cynnydd, a mwyafrif y rhai a holwyd o asiantaethau allweddol yn galw am sail resymegol ar gyfer fframwaith o'r fath. Mae hyn yn berthnasol i'r tair set o gysylltiadau a nodwyd yn y Cyflwyniad.

4.3.2 Felly, ar y lefel fertigol mae yna gefnogaeth ar gyfer Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol a fyddai'n darparu gwell cysylltiadau rhwng haenau llywodraethu (a nodwyd, er enghraifft yn "Gwell Cymru" a "Dysgu Byw'n Wahanol") er bod y budd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd wedi mynegi pryder y byddai lefel llywodraethu neu weinyddu 'rhanbarthol' biwrocraidd newydd yn wrth-gynhyrchiol yn y cyswllt hwn. Un o swyddogaethau Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, felly, fyddai egluro'r graddfeydd llywodraethu gofodol perthnasol yng Nghymru, a'r cysylltiadau hynny gyda meysydd llywodraethu perthnasol eraill ar lefel y DU neu lefel uwch-DU (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

4.3.3 Ar y lefel llorweddol, nododd yr Adroddiad Cynnydd (Papur 2) bod gan nifer o'r polisiau a ddatblygwyd gan CCC yn ddiweddar elfennau cynllunio gofodol pendant

neu oblygedig yn eu meysydd polisi perthnasol, ond nad yw'r rhyng-berthynas rhwng y polisiâu wedi'i ddatblygu cystal ag y gellid o ran lefel integreiddio. Roedd datblygu'r rhyng-berthynas rhwng meysydd polisi'n flaenoriaeth a fynegwyd yn gyson gan y rhai a holwyd o'r asiantaethau allweddol a'r budd-ddeiliaid. Mae "Gwell Cymru" a "Dysgu Byw'n Wahanol" yn hyrwyddo datblygiad Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol gydag ystyriaeth gref i integreiddio meysydd polisi.

- 4.3.4 Ar y lefel ochrol, mae nifer o ddatganiadau polisi CCC a adolygir yn yr Adroddiad Cynnydd Cyfamserol yn rhoi cefnogaeth arbennig i gydlynu pwysau cymdeithasol-economaidd a'r polisiâu gyda chyfyngiadau ac effeithiau gofodol. Roedd y rhai a holwyd o'r asiantaethau allweddol a budd-ddeiliaid yn ystyried y cysylltiad hwn yn un o'r rhai pwysicaf y dylai Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol roi sylw iddo.
- 4.3.5 Dylid nodi bod mater yr iaith Gymraeg yn berthnasol i'r tair set o gysylltiadau. Tynnodd agweddau o Gyfarwyddyd Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio a'r Nodyn Cyngor Technegol 20 cysylltiedig sylw at lefelau llywodraethu (e.e. yn natganiadau cynllunio rhanbarthol grwpiau awdurdodau rhanbarthol), ac mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fel rhan o'i strategaeth o gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol, yn hyrwyddo mentrau iaith lleol, ond ni ddatblygwyd dimensiwn gofodol y fenter hon yn llawn hyd yn hyn.
- 4.3.6 Mae'r ffaith fod yr egwyddor o gael fframwaith gofodol yn cael ei derbyn yn gyffredinol yn arwydd cadarnhaol ac yn sylfaen i adeiladu arni. Mae'r sail resymegol ar gyfer y fframwaith yn debyg o ddatblygu dros amser ac yn ailadroddol yn rhannol, gan y bydd yr angen arbennig yn dod yn gliriach wrth ddeall morffoleg ofodol Cymru yn well. Ymhellach, wrth sefydlu Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, mae'r broses hon yn aml yn ennyn cefnogaeth, gan fod gwrthwynebiad i'r syniad o NSPF yn aml yn deillio o anwybodaeth ynglyn â'i sail resymegol sylfaenol. Dangosodd camau budd-ddeiliaid a chyfweld yr ymchwil hwn ansicrwydd eang ynglyn â chwmpas a chynnwys NSPF, sydd ynddo'i hun yn gweithredu fel ffactor ataliol mewn perthynas â sail resymegol.

Pwyntiau allweddol:

- nodi sail resymegol glir ar gyfer fframwaith gofodol
- angen sefydlu cwmpas a chynnwys fframwaith gofodol yn glir
- angen i ddatblygiad parhaus y fframwaith gofodol fod yn gynhwysfawr

*Diben*

- 4.3.7 Fel a nodwyd yn Adran 3, diben NSPF yn ôl "Gwell Cymru" yw:
- "...gosod cyd-destun clir ar gyfer datblygu cynaliadwy ac ansawdd amgylcheddol".
- 4.3.8 Mae'r rhaglen ymchwil wedi canfod nifer o ddehongliadau a disgwyliadau ynglyn â swyddogaeth(au) posib NSPF sy'n ychwanegu dimensiynau ychwanegol i'r diben hwn. Mae Adran 3 yn crynhoi'r agweddau pwysicaf.
- 4.3.9 Roedd nifer o'r rhai a holwyd o asiantaethau allweddol yn nodi y gallai'r NSPF ystyried cyd-destun Ewropeaidd a byd-eang datblygu polisi yng Nghymru. Mae'r dimensiwn Ewropeaidd yn cael ei archwilio ym Mhapur 3 yr Adroddiad Cynnydd, ac fe'i hystyrir yn Adran 3 yr adroddiad terfynol hwn. Yn achos yr olaf, mae'r gwahanol raddau gofodol a archwiliwyd yn berthnasol i'r tair set o gysylltiadau a

nodwyd yn y Cyflwyniad fel sy'n gysylltiedig â'r 'hyfedredd sylfaenol' a ddylai gael sylw gan unrhyw NSPF.

4.3.10 Mae enghreifftiau o rolau posib ar gyfer NSPF a materion allweddol arwyddocaol iawn a godwyd yn y cyfweiliadau gyda'r asiantaethau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- darparu strategaeth ofodol genedlaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Unedol a strategaethau cludiant.

Fodd bynnag, nid oedd yr holl fudd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd yn cytuno bod y rôl hon a'r materion hyn yn un o swyddogaethau NSPF. Mae yna gefnogaeth bendant ar gyfer y rôl hon (gweler Adran 3 (f)), a'r farn arall sy'n gwrthwynebu cyfyngu NSPF i faterion defnydd tir traddodiadol. Mae yna faterion methodolegol hefyd yn oblygedig yn y rôl hon a rhoddir ystyriaeth iddynt isod.

- nodi patrymau datblygol mynegol ar gyfer gwahanol ardaloedd o Gymru

Mae yna gynsail gref yn nifer o'r astudiaethau achos a ystyriwyd yn Adran 2 ar gyfer yr agwedd hon o rôl NSPF. Mae'r drafodaeth yn Adran 3 (d) ac (e) yn rhoi manylion pellach am y gefnogaeth i rôl o'r fath gan asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau eraill.

- darparu fframwaith ar gyfer ffurfio/gweithredu polisiau eraill

Fel a nodwyd yn Adran 3 [(c) a (d)], cafwyd cefnogaeth gref gan y rhai a holwyd yn yr asiantaethau allweddol i'r rôl hon gan NSPF.

Pwyntiau allweddol:

- dylai'r fframwaith gofodol gysylltu â chyd-destun yr UE a'r DU
- dylai'r strategaeth ofodol genedlaethol adnabod patrymau datblygu mynegol ar gyfer gwahanol ardaloedd o Gymru
- dylai'r fframwaith gofodol hwyluso integreiddiad polisi sectorol a rhoi cyfle i egluro penderfyniadau buddsoddi a datblygu
- dylai'r fframwaith gofodol ffurfio'r cyd-destun ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Unedol a strategaethau cludiant

*Egwyddorion Cyfarwyddol*

4.3.11 Fel a nodwyd yn Adran 2 ac yn yr Adroddiad Cynnydd, mae pennu egwyddorion clir i arwain datblygiad fframwaith gofodol yn elfen bwysig o'r holl strategaethau gofodol yr edrychwyd arnynt. Gellir nodi'r rhain drwy'r broses o ddatblygu'r strategaeth ei hun (fel mae Iwerddon yn ei wneud ar hyn o bryd), neu fe ellir ei seilio ar egwyddorion y cytunwyd arnynt eisoes (fel yn Swydd Efrog a Humber).

4.3.12 O ystyried mai cyfnod cymharol fyr sydd ers y daeth CCC i fodolaeth, mae'n syndod fod nifer sylweddol o egwyddorion clir wedi'u nodi mewn polisiau presennol. Fel a nodwyd ym Mhapur 2 yr Adroddiad Cynnydd, mae rhai o'r rhain yn cynnwys cyfeiriau gofodol pendant, ond yn nifer ohonynt mae'r dimensiynau gofodol yn oblygedig neu heb eu datblygu. Fodd bynnag, mae'n glir fod "Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn darparu'r fframwaith sy'n pontio holl waith y Cynulliad" ("Cymru Cynaliadwy – Dysgu Byw'n Wahanol[2000]), ac fe awgrymir, felly, y dylai'r fframwaith fod yn seiliedig ar egwyddorion y Cynllun hwn. Yn wir, cafwyd

cefnogaeth gref gan yr asiantaethau sy'n gyfrifol am ddarparu polisiau fod y thema cynladwyedd yn hanfodol ac yn un o elfennau diffinio NSPF penodol i Gymru.

- 4.3.13 Yn ogystal, bydd y Cynulliad am ddefnyddio cynnwys y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol pan fo datblygu rhanbarthol yn cael ei ystyried a'r Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd (ESDP) i lywio egwyddorion y strategaeth ofodol. Yn yr ail achos, mae'r mater penodol yn yr ESDP a nodau cydlyniad economaidd a chymdeithasol yn cyd-fynd yn dda gydag amcanion economaidd a chymdeithasol CCC.
- 4.3.14 Gall yr egwyddorion hyn ffurfio'r man cychwyn y gellir ei brofi wedyn fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth ei hun.

Pwynt allweddol:

- mae'r egwyddorion cyfarwyddol a sefydlwyd gan CCC ynglyn â datblygu cynaliadwy, lles economaidd a chynhwysedd cymdeithasol yn ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer datblygu fframwaith gofodol

*Statws*

- 4.3.15 Ychydig iawn o'r dogfennau cynllunio gofodol a arolygwyd yn Adran 2 sydd â swyddogaeth statudol. Pan fo ganddynt, mae'r swyddogaeth honno'n ymwneud â'r system gynllunio sy'n weithredol yn y wlad honno. Dylid nodi fod yr enghreifftiau Ewropeaidd a arolygwyd yn yr Adroddiad Cynnydd ac yn Adran 2 wedi'u gosod mewn system gyfansoddiadol a chyfreithiol wahanol iawn i'r hyn sy'n bodoli yn y DU, sy'n effeithio'n ddwys ar y ffordd mae'r tri chysylltiad mewn fframwaith cynllunio gofodol a ystyriwyd yn y Cyflwyniad yn cael eu rhoi mewn cyd-destun.
- 4.3.16 Mae Adran 3 yn ystyried ymatebion y rhai a holwyd mewn asiantaethau allweddol ynglyn â mater statws, ac yn nodi'r ystod eang o safbwyntiau. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn ffafrio statws cynghorol yn hytrach na statudol, ac felly awgrymir peidio rhoi statws statudol i fframwaith gofodol Cymru, ond y dylai fod yn ddogfen cyfarwyddyd, yn nodi cyfeiriadau strategol allweddol. Yn hyn o beth, byddai'n gweithredu fel datganiad polisi cenedlaethol, yn arwain y broses o weithredu polisiau sectorol cenedlaethol. Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi bod statws NSPF wedi'i gytuno fel Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Pwysleisiodd y rhai a holwyd oedd yn ymwneud â gweithredu polisiau cyfredol CCC bwysigrwydd hanfodol cael cytundeb mysg asiantaethau gweithredu i sicrhau bod modd gweithredu polisiau cenedlaethol.
- 4.3.17 Ar lefel leol, gallai'r NSPF fod yn ystyriaeth berthnasol wrth ffurfio Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallai fod o gymorth i arwain gweithgarwch awdurdodau lleol. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae angen i'r fframwaith gofodol fod yn ddarbwyllol ac yn berthnasol i anghenion lleol, heb fod yn rhy fanwl a chyfarwyddol. Roedd yr ymatebion gan y rhai a holwyd o asiantaethau allweddol yn pwysleisio egwyddor datganoli, gyda pholisiau'n cael eu ffurfio a'u gweithredu ar gyfraddau gofodol a lefelau llywodraethu priodol.
- 4.3.18 O gynhyrchu dogfen statudol, byddai'n rhaid datblygu fframwaith a fyddai'n fanwl iawn ac yn anhyblyg, neu'n fframwaith eang iawn. Ni fyddai'r un ohonynt yn briodol (nac yn dderbyniol yng ngolwg y mwyafrif o fudd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd).
- 4.3.19 Byddai fframwaith cynllunio gofodol yn ennill statws wrth i fudd-ddeiliaid danysgrifio'n gynyddol iddo, sy'n cadarnhau'r manteision sydd i'w cael o ddefnyddio dull datblygu cynhwysfawr a nodwyd o dan *Sail resymegol*.

Pwyntiau allweddol:

- dylai fframwaith gofodol ddarparu cyfarwyddyd yn hytrach na bod yn statudol
- dylai fframwaith gofodol bwysleisio ei agweddau prosesu, gan ofyn am gefnogaeth budd-ddeiliaid yn hytrach na rhoi atebion penodedig

*Dull o gynrychioli*

4.3.20 Mae'r ymchwil yn awgrymu dau ddull posib:

- Dogfen bolisi yn mynegi gwahanol batrymau gofodol drwy destun, mapiau a deunydd darluniadol, lle y gallai'r fframwaith gofodol gynnwys un neu ddau o fapiau sgematig (tebyg i'r diagram allweddol yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Rhanbarthol Lloegr, e.e. Rhanbarth y Gogledd Orllewin, a adolygwyd ym Mhapur 5 yr Adroddiad Cynnydd)
- Fel arall, gellid cynrychioli'r dadansoddiad sylfaenol yn gartograffig, gyda thestun eglurhaol byr i fynd gydag ef. Gellid nodi'r egwyddorion bras sy'n sylfaen i'r strategaeth yn y testun a chynrychioli'r strategaeth ofodol mewn cyfres o fapiau a diagramau. Mae Iwerddon a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer y cam dadansodol, er nad yw ffurf derfynol y strategaeth ofodol eto'n amlwg yn y naill achos na'r llall (gweler yr Adroddiad Cynnydd, Adran 5). Gallai'r dull hwn yn ddefnyddiol gynnwys dadansoddiadau cyfrifiadurol ar gyfer archwilio a phrofi gwahanol ddewisiadau polisi.

4.3.21 Mae'n amlwg bod y dulliau hyn wedi'u seilio ar y gwahanol safbwyntiau ynglyn â'r NSPF, gyda rhai yn ei weld fel cynnyrch terfynol ac eraill fel arf gweithredol. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried ymhellach yn Adran 3, ac yn rhan olaf yr Adran hon.

Pwynt allweddol:

- dylai'r dull o gynrychioli'r fframwaith gofodol adlewyrchu ei ddiben

*Natur y dull*

4.3.22 Gellir diffinio strategaethau gofodol yn fras i rai seiliedig ar bwnc neu rai sy'n thematig, er bod cwmpas y naill a'r llall yn gallu amrywio (gweler Adran 2). Er bod dull testunol yn ymwneud yn glir â goblygiadau sectorol, fel tai neu gludiant, nid yw'n gallu gwireddu gwerth dull gofodol drwy integreiddio gwahanol agweddau o ddatblygiad tiriogaethol. Mae'n rhoi sylw i un o'r cysylltiadau a nodwyd yn y Cyflwyniad yn unig – sef integreiddiad llorweddol. Mae ganddo gysylltiad cryf, serch hynny, gyda dull traddodiadol y system gynllunio a bydd yn gyfarwydd i'r rhai sy'n gweithio yn y maes ac i adrannau confensiynol polisi a gweinyddiaeth.

4.3.23 Mewn cyferbyniad, gall dull mwy thematig fod yn gysyniad mwy deniadol ond yn anodd yn ymarferol o ganlyniad i gymhlethdod gwahanol gysylltiadau a'r anhawster o dynnu ynghyd y gwahanol swyddogaethau sy'n rhyngweithio'n wahanol mewn cyd-destunau gwahanol. Mae dulliau thematig yn cynnig ffordd newydd o edrych ar strwythurau cynllunio traddodiadol a gallai eu gweithredu drwy'r system gynllunio defnydd tir statudol fod yn fwy o her. Os cânt eu gweithredu, bydd angen dehongli ar raddfeydd is.

4.3.24 Mae enghreifftiau o'r dulliau hyn yn Adran 2, ac mae ystyriaeth o'r materion data sy'n codi ohonynt wedi'i amlinellu yn Adran 3. O ran y prif faterion sylweddol sy'n rhaid i unrhyw NSPF roi sylw iddynt, gellir gweld yn Nhabl 3.1 fod yna rai

cyfyngiadau data a fydd yn effeithio ar y dewis o ddull. Lluniwyd setiau data presennol o fewn cyd-destun polisi testunol. Wrth adnabod bylchau a mesurau dewisol, mae Tabl 3.1 yn nodi dull camau ar gyfer datblygu NSPF, gan fod digon o wybodaeth ar gael i ffurfio dull amlinellol, y gellir ei ddatblygu mewn modd mwy soffistigedig wrth i'r bylchau a'r mesurau dewisol a nodwyd yn y Tabl dderbyn sylw a chael eu cynnwys yn llwyddiannus yn y broses o ddatblygu fframwaith gofodol.

- 4.3.25 Fodd bynnag, o fynd ymhellach nag ymgorffori'r 'blwch offer' hwn o setiau data, ail elfen bwysig o ddefnydd data mewn fframwaith gynllunio gofodol i Gymru yn y dyfodol fyddai ceisio cyfuno setiau data mewn ffordd sy'n llywio *themâu gofodol* ehangach a ddatblygwyd fel rhan o'r fframwaith. Enghraifft o hyn fyddai datblygu System Wybodaeth Ddaearyddol a allai storio a diweddarau'r dangosyddion allweddol a nodwyd. Fel cam cyntaf, gellid creu cyfres o fapiau GIS i amlygu themâu gofodol arbennig (e.e. cludiant a hygyrchedd; cysylltiadau trefol-gwledig; cystadleugarwch rhanbarthol a chysylltiadau ayb). Defnyddiwyd y mapiau thematig hyn yn effeithiol yn y gwahanol ddrafftiau o'r Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd. Byddai hyn yn ddefnyddiol, nid yn unig ar gyfer darparu cyd-destun gofodol i wneuthurwyr polisi ledled Cymru, ond fel offeryn pwerus y gellir ei ddefnyddio yn y dyfodol i ymdrin â materion gofodol o bwysigrwydd cyfoes. Gellid ei ddarparu ar y We er mwyn cael cyfranogiad cymunedol eang yn y fframwaith gofodol i Gymru.

Pwynt allweddol:

- mae dull thematig o gasglu a dadansoddi data yn cynnig mwy o fanteision na dull testunol, yn enwedig o ran nodi'r themâu gofodol mwyaf arwyddocaol

*Perthynas â strategaethau eraill*

- 4.3.26 Mae safle perthynol strategaethau o'r fath yn hierarchaeth cynlluniau a rhaglenni manau eraill yn Ewrop yn amrywio yn ôl y wlad dan sylw. Mewn rhai achosion, mae'r strategaeth ofodol yn gosod y cyd-destun ar gyfer cynlluniau eraill; mewn achosion eraill, fe'i llunnir i ystyried blaenoriaethau y cytunwyd arnynt eisoes. Bydd angen i strategaeth Cymru fod yn seiliedig ar bolisïau a strategaethau presennol (mae nifer o'r rhai pwysicaf wedi'u harolygu ym Mhapur 2 yr Adroddiad Cynnydd) a dylanwadu ar eu datblygiad pellach. Cadarnhawyd hyn gan ymatebion y budd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd o'r asiantaethau allweddol a drafodwyd yn Adran 3.
- 4.3.27 Fel a nodwyd yn gynt, o ystyried y flaenoriaeth mae CCC yn ei roi i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, byddai'n ymddangos mai dyma'r pwynt mwyaf priodol i ddechrau datblygu fframwaith gofodol i Gymru, gan ddarparu'r egwyddorion cyfarwyddol. Dylid datblygu'r fframwaith gofodol drwy ystyried cyd-destun gofodol cynlluniau a pholisïau presennol, fel y rhai a nodir yn NEDS a'r strategaeth gludiant. Ar ôl cytuno ar y Fframwaith Gofodol, dylai ddylanwadu ar ddatblygiad pellach cynlluniau a strategaethau cenedlaethol.
- 4.3.28 Fel dogfen gyfarwyddyd sy'n gosod polisi gofodol cenedlaethol, mae'n debyg y bydd y fframwaith gofodol yn dylanwadu ar gynlluniau buddsoddi cyrff eraill o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus. Roedd hyn yn un o brif gasgliadau Adran 3, ac fe'i trafodir o dan '*Diben*'. Fodd bynnag, ni ddylai geisio datblygu cynigion gweithredu manwl mewn meysydd ble mae ei ddylanwad yn gyfyngedig (un arall o gasgliadau Adran 3, a gweler isod). Mae cysylltiadau â dogfennau cynllunio yn cael eu hystyried isod.

Pwynt allweddol:

- Gallai'r fframwaith gofodol ddatblygu'n ddogfen gyfarwyddyd bwysig fel rhan o ddull polisi integredig a ddatblygir gan CCC

### *Gwaith cefndir a dadansoddiad*

- 4.3.29 Mae lefel y dadansoddiad sy'n sylfaen i strategaethau gofodol yn amrywio, yn rhannol o ganlyniad i wahaniaethau yn swm y deunydd sydd ar gael yn gyffredinol ac yn rhannol o ganlyniad i'r dull a ddefnyddir. Mae angen rhagor o astudiaethau pan nad oes ond ychydig brofiad o weithredu fframweithiau gofodol a lle nad oes ond gwybodaeth gyfyngedig am y strwythur neu forffoleg ofodol yr ardal dan sylw.
- 4.3.30 Bydd y dadansoddiad cyntaf yn cynnwys ystyriaeth o oblygiadau gofodol polisiau presennol, strwythur gofodol y diriogaeth dan sylw a'r berthynas rhwng lleoedd o fewn y diriogaeth. Gall hyn greu llawer o wybodaeth y gellir ei defnyddio i ddatblygu dewisiadau polisi ac i wella dealltwriaeth o weithrediad y diriogaeth yn gyffredinol.
- 4.3.31 Mae'r mathau o astudiaeth a wneir fel rheol yn cynnwys asesiad o newid mewn poblogaeth a phatrymau ymfudo; newid economaidd (a strwythur presennol); patrymau symud gyda chlodiant; natur systemau trefol a gwledig; ac astudiaethau ar gysylltiadau mewnol ac allanol.
- 4.3.32 Fel mae Adran 3 yn nodi, yng Nghymru mae'n debyg y bydd angen gwybodaeth bellach ar y canlynol:
- Cludiant
  - Datblygu Economaidd
  - Tai
  - Poblogaeth ac Ymfudo
  - Dieithrwch Cymdeithasol
  - Cynllunio Gwastraff
  - Diwylliant
  - Twristiaeth
  - Ansawdd Amgylcheddol
  - Cynladwyedd
  - Anghenion Trefol a Gwledig
  - Amddifadedd
  - Natur y tirlun
  - Hygyrchedd
  - Perygl llifogydd
  - Potensial ynni adnewyddol
- 4.3.33 Mae Tabl 3.1 yn nodi'n fanwl rai o'r setiau data allweddol a'r bylchau strategol perthnasol o fewn y materion hyn.
- 4.3.34 Mae'r gwaith dadansoddiadol yn ffurfio sylfaen y fframwaith gofodol ac mae angen dadansoddiad o ansawdd uchel os yw'r fframwaith am fod yn gadarn, yn amddiffynadwy ac yn seiliedig ar ddadansoddiad daearyddol. Bydd angen dadansoddiad llai manwl os mai dim ond nodi egwyddorion gofodol allweddol a ddylai lywio penderfyniadau buddsoddi ehangach yw unig swyddogaeth y fframwaith gofodol.

#### Pwynt allweddol:

- Ar hyn o bryd, mae yna ddigon o ddata i ddatblygu fframwaith gofodol, a gellir ymestyn y dull dadansoddiadol yn dra chymhleth wrth i'r fframwaith ddatblygu

### *Y continwwm dadansoddi-gweithredu*

- 4.3.35 Mae fframwaith gofodol yn fwy na dim ond dadansoddiad o strwythur gofodol y diriogaeth dan sylw. Mae'n symud ymhellach tuag at y broses o weithredu, yn dibynnu ar faint o adnoddau sydd ar gael. Ni cheir awgrym y bydd fframwaith gofodol i Gymru yn cael adnoddau ar gyfer gweithredu'r fframwaith. Bydd ei weithrediad yn ddibynnol ar ystod ehangach o bolisiau a weithredir gan gyrff eraill (gweler egwyddor datganoli a drafodwyd yn Adran 3 ac yn 'Statws' uchod).
- 4.3.36 Fodd bynnag, ni ddylai'r fframwaith gofodol beidio cyflwyno casgliadau bras ynglyn â phatrymau datblygu priodol ar gyfer ardaloedd a nodwyd. Gellir nodi hyn yn gyffredinol, ond dylai allu dylanwadu ar flaenoriaethau buddsoddi'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a rhoi cyfarwyddyd i gynlluniau manylach yr awdurdodau lleol yn yr ardaloedd dan sylw.

#### **Pwynt allweddol:**

- Mae'r fframwaith gofodol yn debyg o ddibynnu ar ystod eang o asiantaethau ar gyfer ei weithredu

### *Perthynas â phrosesau statudol*

- 4.3.37 Mae sut y bydd y fframwaith gofodol yn cysylltu â'r prosesau statudol eraill, yn enwedig y system gynllunio defnydd tir yn ystyriaeth allweddol. Yn yr holl achosion a archwiliwyd yn Adran 2, y system gynllunio defnydd tir yw un o'r cyfryngau gweithredu. Yr hyn sy'n amrywio yw'r graddau mae'n rhaid i ddogfennau cynllunio is ystyried fframwaith gofodol. Mae rhai agweddau yn orfodol tra bod eraill yn fynegol.
- 4.3.38 Credir bod dull mwy mynegol yn fwy priodol ar gyfer fframwaith gofodol Cymru, barn a seiliwyd ar safbwyntiau'r budd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd o asiantaethau allweddol a drafodwyd yn Adran 3. Byddai'r dull hwn yn gosod y fframwaith cyffredinol ar gyfer datblygu strategaethau manylach ar lefel rhanbarthol, i'w gweithredu drwy weithgarwch lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisiau CCC ar adnewyddu cymunedol a chynhwysedd cymdeithasol. Byddai'r cysylltiad â'r Cynlluniau Datblygu Unedol yn cael ei gyfeirio drwy'r trefniadau cydweithio presennol ar gyfer strategaeth gynllunio ranbarthol.

#### **Pwynt allweddol:**

- Dylai'r fframwaith gofodol ymestyn y tu hwnt i bryderon cynllunio defnydd tir traddodiadol yn ei gwmpas, ond dylai ddarparu cyfarwyddyd ar ei gyfer

### *Ymgynghori*

- 4.3.39 Dylai'r fframwaith gofodol fod yn destun ymgynghoriad a chyfranogiad ar raddfa eang ar nifer o adegau. Dylai hyn ddigwydd gyda budd-ddeiliaid wrth ddatblygu dewisiadau gofodol, a gall ddilyn y dadansoddiad manwl y cyfeiriwyd ato uchod, os gwneir hyn. Mabwysiadwyd y dull hwn yn llwyddiannus yn Iwerddon (gweler Adran 2), yn cynnwys cynnal fforwm gyda dros 250 o fynychwyr. Mae gan CCC hefyd brofiad o sefydlu 'Grwpiau Tasg' mewn perthynas â datblygu'r strategaeth dai genedlaethol, a roddodd gyfleoedd defnyddiol i gydweithio.
- 4.3.40 Yn ogystal, dylid annog chyfranogiad a chyfraniad yn ystod y broses o ddatblygu'r strategaeth ei hun. Rhan o werth y fframwaith gofodol yw'r broses o gyrraedd ato (gweler Adran 2), ac, i raddau helaeth, bydd statws y fframwaith gofodol yn deillio o'i berchnogaeth gyffredinol. Mae'n bwysig, felly, fod yna berchnogaeth eang o'r



strategaeth derfynol ac nad yw'n 'ymddangos' yn sydyn gydag ymarfer ymgynghori adweithiol dilynol. Mae cynllunwyr yn Berlin-Brandenburg wedi cydnabod hyn yn gadarn iawn ac yn 'gwerthu' y strategaeth ei hun a'r angen amdani i'r cyhoedd ac ystod o fudd-ddeiliaid.

Pwynt allweddol:

- Dylid sicrhau cyfranogiad a chyfraniad wrth ddatblygu dewisiadau gofodol ac wrth ddatblygu'r strategaeth ei hun. Gellir cyflawni hyn drwy amrywiaeth o drefniadau, yn cynnwys cynnal fforwm a sefydlu grwpiau tasg.

*Amserlen*

- 4.3.41 Mae'r amserlen ar gyfer llunio strategaeth ofodol yn amrywio yn dibynnu ar ddyfnder yr ymarfer. Gellir llunio fframwaith strategol syml gydag ymgynghoriad cyfyngedig ac sy'n defnyddio ffynonellau data presennol, a chyda dehongliad gofodol cyfyngedig, mewn tua 9 mis. Ond byddai'n cymryd dros 3 blynedd i lunio fframwaith statudol o ganlyniad i hyd y cyfnodau ymgynghori a dyfnder y dadansoddiad sylfaenol angenrheidiol.
- 4.3.42 Byddai fframwaith gofodol cadarn yn seiliedig ar themâu cyffredinol cytunedig wedi'u seilio ar ddadansoddiad gofodol manwl yn cynnig llwybr canol. Rhagwelir y byddai angen tua 18-24 mis i gwblhau fframwaith o'r fath. Byddai hyn yn galluogi fframwaith terfynol i fod yn weithredol erbyn mis Rhagfyr 2002 pe dechreuid ar y gwaith yn y dyfodol agos. Byddai amseru o'r fath yn galluogi'r fframwaith i lywio arolwg canol tymor rhaglenni'r Gronfa Strwythurol yng Nghymru, yn ogystal â dylanwadu ar strategaethau a chynlluniau eraill.

Pwynt allweddol:

- Mae'n bosib llunio fframwaith gofodol manwl mewn tua 18-24 mis

*Arolwg Annibynnol*

- 4.3.43 Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Rhanbarthol yn Lloegr yn destun Archwiliad Cyhoeddus. Er y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y dewis hwn, nid oes cyfiawnhad drosto ar hyn o bryd gan nad yw'r gwerth ychwanegol dros yr ymarfer ymgynghori yn amlwg. Fodd bynnag, dylai agweddau arolygu eraill – fel arfarniad cynladwyedd – ffurfio rhan ganolog o'r dull methodolegol i ddatblygu'r fframwaith gofodol (gweler Adran 2 a Phapur 5 yr Adroddiad Cynnydd).

Pwynt allweddol:

- Nid oes yn rhaid cael arolwg annibynnol cyn belled â bod y strategaeth yn cael ei llunio'n gynhwysol, gydag ymgynghoriad eang ag asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau eraill (i gynnwys grwpiau o'r sector preifat, grwpiau gwirfoddol a chymunedol), a'i bod yn destun arfarniad cynladwyedd.

*Monitro a gwerthuso*

- 4.3.44 Gwelir pwysigrwydd monitro a gwerthuso yn glir o'r gwaith ar astudiaethau achos yn Adran 2 a'r ymatebion a drafodwyd yn Adran 3. Mae fframwaith gofodol yn gysyniad dynamig a gall newidiadau mewn cyd-destunau macro-economaidd neu flaenoriaethau polisi ddylanwadu ar natur y fframwaith gofodol. Mae'n bwysig bod natur hirdymor fframwaith gofodol yn cael ei gydnabod os yw cael unrhyw ddylanwad neu effaith. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y fframwaith yn hyblyg er mwyn gallu ei newid neu ei ddiwygio wrth i amgylchiadau newid. Mae

monitro yn rhan hanfodol o'r cylch polisi hwn. Awgrymir llunio datganiad gofodol 3-5 mlynedd yn nodi newidiadau ac amodau presennol yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt.

Pwynt allweddol:

- Mae monitro a gwerthuso parhaus yn hanfodol, gydag o leiaf arolwg treiglol 3-5 mlynedd yn erbyn meini prawf

#### **4.4 Dewisiadau ar gyfer Fframwaith Cynllunio Gofodol Cymru**

4.4.1 Wrth bennu'r prif ystyriaethau perthnasol ar gyfer datblygu fframwaith cynllunio gofodol, nodwyd pob un o'r camau methodolegol yn fanwl yn 4.3, ynghyd â'r cyfeiriad priodol at yr arolwg o astudiaethau achos, polisiau CCC, a safbwyntiau budd-ddeiliaid a'r rhai a holwyd o asiantaethau allweddol.

4.4.2 Er mwyn egluro'r ystod o ddewisiadau sydd ar gael wrth ddatblygu fframwaith cynllunio gofodol i Gymru, gellir nodi tri dull bras sydd wedi codi o'r arolwg o astudiaethau achos a chan y rhai a holwyd:

##### 1. Datganiad Gweledigaeth

Mae'r dull hwn yn sefydlu 'gweledigaeth' ddyheadol, yn seiliedig ar ddangosyddion meincnod allweddol ar gyfer nifer cyfyngedig o feysydd polisi. Ni ddarperir mapiau nac unrhyw gynrychioliad gweledol arall.

##### 2. Fframwaith Strategol

Gellir rhannu'r dull hwn yn ddau amrywiad:

- a) ffocws dadansoddol, fel rheol yn defnyddio ystod o dechnegau (yn cynnwys GIS ac efelychiad cyfrifiadurol), gyda chynrychioliad gweledol ar ystod o raddfeydd, yn cynnwys mapio sgematig o faterion cyffredinol a pholisiau
- b) amrywiad yn seiliedig ar egwyddorion, gyda chynrychioliad gweledol ar raddfa eang o themâu allweddol ar ffurf map.

##### 3. Prif Gynllun

Mae'r dull hwn yn ymwneud yn bennaf â defnydd tir neu gynllun tri dimensiwn, mae'n gyfarwyddol ac yn gogwyddo tuag at gyflwr-terfynol penodol, ac fel rheol wedi'i gyflwyno ar ffurf cynllun manwl neu fap.

4.4.3 O'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cynnydd ac yn fanwl yn yr adrannau o'r Adroddiad Terfynol hwn, dim ond Dewis 2(a) a (b) sy'n llwyddo ym mhroffion methodoleg digonol, perthnasedd cyd-destunol, derbyniad cyffredinol a dichonolrwydd ymarferol. Mae'r ddau yn gydnaws â'r casgliadau cyffredinol a gafwyd mewn perthynas â methodoleg briodol, a nodwyd ar ddiwedd pob cam a ddadansoddiwyd yn 4.3.

4.4.4 Dangosodd yr arolwg o bolisiau cyfredol CCC a wnaed ym Mhapur 2 yr Adroddiad Cynnydd fod nifer, os nad y rhan fwyaf, o'r polisiau presennol a ddatblygir gan CCC yn ymwneud â sefydlu datganiadau gweledigaeth. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys meincnodau penodol, ond nid oes yr un ohonynt yn cynnwys unrhyw elfen gynrychioli gofodol arwyddocaol. Mae "Gwell Cymru" a'r Cynllun Datblygu

Cynaliadwy yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ddatblygu fframwaith polisi mwy integredig, a fyddai'n galluogi ystyriaeth benodol i elfennau gofodol y broses o greu a gweithredu polisiau'r Cynulliad. Gallai dewis 1, felly, fod yn gam cyntaf angenrheidiol yn y gwaith o lunio gweledigaethau penodol ar gyfer datblygu polisi yng Nghymru, ond nid oes ganddo'r elfennau methodolegol hanfodol ar gyfer datblygu'r tri chysylltiad sy'n ffurfio 'hyfedredd sylfaenol' strategaeth ofodol (fertigol; llorweddol; ochrol). Roedd yna gytundeb cyffredinol ymysg y rhai a holwyd y byddai angen i NSPF ddatblygu y tu hwnt i lunio datganiadau gweledigaeth.

- 4.4.5 Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â dull traddodiadol y Prif Gynllun yn gwbl hysbys. Mae'r pwyslais ar gyflawni cyflwr terfynol penodol yn anghydnaws â realiti cymdeithas fodern, ac nid yw ei ddibyniaeth ar gydymffurfriad statudol o un awdurdod uwch yn cyd-fynd â syniadau cyfoes am lywodraethu. Ymhellach, nid yw'r pwyslais arbennig ar gynrychioliadau map yn hwyluso'r prosesau sylfaenol o fonitro ac arolygu sy'n gysylltiedig â gweithredu polisi cyfoes. Unwaith eto, cafwyd cytundeb ymysg y rhai a holwyd y dylai NSPF i Gymru ar bob cyfrif osgoi paratoi cynllun gofodol 'dadelfennol', cyfarwyddol, map-seiliedig.
- 4.4.6 Mae'r ddau amrywiad a amlinellwyd o dan (2) yn mabwysiadu fframwaith anghyfarwyddol. Mae'r ddau yn cynnwys eglurhad o bob cam methodolegol a ystyriwyd yn yr Adran hon, a derbyniodd pob un gefnogaeth gref gan y rhai a holwyd. Gallai'r ddau ffurfio sail ddilys ar gyfer datblygu NSPF i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall yn annibynnol o'i gilydd, a gallai mabwysiadu Dewis 2(b) ysgogi'r astudiaethau dadansoddol sy'n gysylltiedig â Dewis 2(a). Fel mae'r arolwg o ofynion data a nodwyd yn Adran 3 yn dangos, mae yna fanteision sylweddol i fonitro a ffurfio a phrofi sefyllfaoedd gwahanol sy'n gysylltiedig â Dewis 2(a). Mae Dewis 2(a) hefyd yn nodi'n fanwl y prif elfennau gofodol sy'n sail i ddatblygu fframwaith strategol priodol, tra bod y dimensiwn gofodol yn aros yn oblygedig, o bosib, gyda dull sy'n seiliedig ar egwyddorion. Ymhellach, ystyrir bod modd datblygu Dewis 2(a) mewn ffurf ragarweiniol ar sail y setiau data a'r technegau presennol, gan ymdrin yn ddeallus iawn â dull thematig yn hytrach na thestunol o lunio NSPF.
- 4.4.7 Am y rhesymau hyn, deir i'r casgliad mai Dewis 2(a) sy'n darparu'r fethodoleg fwyaf cadarn ar gyfer datblygu fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol i Gymru, ac fe fyddai'n debyg o sicrhau cefnogaeth eang.

## **5. TUAG AT FFRAMWAITH CYNLLUNIO GOFODOL I GYMRU**

### **5.1 Dull dewisol**

5.1.1 Nododd yr adran flaenorol dri dewis ar gyfer datblygu gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Dewis 2a yw'r hoff ddewis a'r un sy'n cael ei argymhell gan yr astudiaeth ar gyfer paratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol:

2a) Fframwaith strategol sydd â chanolbwynt dadansoddol ac sy'n defnyddio ystod o dechnegau dadansoddol (yn cynnwys Systemau Gwybodaeth Daeryddol ac efelychiad cyfrifiadurol), gyda chynrychioliad gweledol ar ystod o raddfeydd, yn cynnwys mapio sgematig o faterion cyffredinol a pholisiau.

5.1.2 Mae'r dewis hwn yn gyson â disgwyliadau budd-ddeiliaid allweddol, yn cydymffurfio â'r arferion sy'n ymddangos mewn cynllunio gofodol ac, yn bwysig, yn gyson â fframwaith polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **5.2 Tuag at Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol**

5.2.1 Cyngorir Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fabwysiadu dull deinamig a hyblyg o baratoi a phennu cynnwys Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Mae'r arolwg o fentrau cynllunio gofodol cyfoes wedi dangos tuedd tuag at ddulliau o'r fath er mwyn gallu ymateb i newidiadau mewn amodau cymdeithasol-economaidd o fewn tiriogaethau. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r fframwaith allu arolygu a chaniatáu datblygiad dewisiadau eraill ar gyfer datblygu tiriogaeth Cymru yn y dyfodol.

5.2.2 Disgwylir i'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol roi sylw i gyd-destun gofodol Cymru mewn perthynas â'r diriogaeth Ewropeaidd a chysylltiadau swyddogaethol traws-ffiniol o fewn y Deyrnas Unedig. Bydd y fframwaith yn unigryw wrth gyflawni'r swyddogaeth hon o sefydlu cyd-destun ehangach ar gyfer polisi a gweithgarwch yng Nghymru a nodi cysylltiadau pwysig rhwng gwahanol raddfeydd o lywodraethu. Dylai'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol fod yn seiliedig ar y Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd drwy dynnu cysyniadau ac egwyddorion gofodol ohono, a hefyd dehongli'r gwahanol ddewisiadau polisi a gyflwynir ynddo.

5.2.3 Prif swyddogaethau Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol fyddai nodi patrymau datblygol mynegol ar gyfer gwahanol ardaloedd o Gymru a darparu fframwaith ar gyfer ffurfio a gweithredu polisiau sectorol eraill. Mae enghreifftiau o fentrau cynllunio gofodol eraill yn darparu cysail gref ar gyfer y dull hwn. Mae'r swyddogaethau hyn hefyd yn gyson â disgwyliadau budd-ddeiliaid a gwneuthurwyr polisi allweddol yng Nghymru.

5.2.4 Gall y fframwaith gyflawni nifer o swyddogaethau ategol, er enghraifft yn y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu unedol a chynlluniau cludiant lleol, er na argymhellir hyn fel un o brif swyddogaethau'r fframwaith. Dylai'r Fframwaith Cynllunio gofodol Cenedlaethol sefydlu fframwaith cyffredinol lle y gall gweithredwyr ar lefel lleol a rhanbarthol ffurfio strategaethau priodol ar gyfer gweithgarwch a gweithredu. Dylai'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol weithredu o fewn cwmpas egwyddor datganoli. Yn y cyd-destun hwn, gallai awdurdodau lleol a'r fforymau cynllunio rhanbarthol elwa o fframwaith mwy gweladwy ac effeithiol ar gyfer eu

strategaethau eu hunain. Fodd bynnag, ychydig o gefnogaeth a ganfu'r tîm astudio i lefel statudol o gynllunio ar lefel ranbarthol yng Nghymru.

- 5.2.5. Yng nghyd-destun y swyddogaethau a gynghorwyd i'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, argymhellir bod y fframwaith yn derbyn statws cyfwerth i bolisiau cynllunio eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe gefnogir y safbwynt hwn gan y mwyafrif o fudd-ddeiliaid perthnasol yng Nghymru.
- 5.2.6. Dylai blaenoriaethau datganedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru sef datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal lywio'r gwaith o baratoi a phennu cynnwys y Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Yn ychwanegol at hyn, dylai'r fframwaith fod yn ymatebol i ystod eang o bolisiau a strategaethau'r Cynulliad, yn cynnwys y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol, y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'r Fframwaith Trafnidiaeth.
- 5.2.7. Argymhellir y dylai'r fframwaith ddibynnu ar raglenni a chyllidebau meysydd polisi presennol a strategaethau ffurfiol y Cynulliad ar gyfer ei weithrediad ac na ddylid dyrannu adnoddau penodol i weithredu'r fframwaith.
- 5.2.8. Mae yna ddigon o ddata ar gael ar gyfer paratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol, er bod angen cynhyrchu a dadansoddi rhagor o ddata i sicrhau fframwaith sy'n gadarnach ac yn fwy dadansoddol. Nid oes angen gohirio dechrau gweithredu'r fframwaith a gellir darparu rhagor o ddata angenrheidiol wrth i'r fframwaith ddatblygu. Yn y tymor canol, argymhellir casglu a dadansoddi data ar sail thematig i gefnogi datblygiad pellach y fframwaith yn well.
- 5.2.9. Mae budd-ddeiliaid allweddol yng Nghymru yn cefnogi'r gwaith o baratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Mae cefnogaeth y budd-ddeiliaid hyn yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r fframwaith a blaenoriaethau'r Cynulliad yn llwyddiannus, a dylid ei ystyried fel sylfaen gadarnhaol i ddatblygu'r fframwaith. Mae'n hanfodol, felly, fod y budd-ddeiliaid hyn yn cael cyfle cynnar, a diweddarach, i gyfrannu at y gwaith o baratoi'r fframwaith.
- 5.2.10. Ni ddylai'r gwaith o baratoi'r fframwaith fabwysiadu'r dull o roi'r fframwaith yn destun arolwg annibynnol drwy archwiliad gan y cyhoedd. Nid yw manteision dull o'r fath dros drefniadau ymgynghori gwahanol yn glir, yn arbennig o ystyried prif egwyddorion awgrymedig y fframwaith.
- 5.2.11. Rhagwelir bod modd paratoi'r dull bwriadol, sef datblygu dogfen strategol yn seiliedig ar ddadansoddi materion gofodol perthnasol, dros gyfnod o 18-24 mis. Mae'r dull hwn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflawni ei ymrwymiad yn Gwell Cymru ac i fod mewn safle i lywio'r arolwg canol dymor o raglenni Cronfa Strwythurol yng Nghymru.
- 5.2.12. Dylid arolygu'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol bob 3-5 mlynedd gan ei fod yn ddogfen ddeinamig sy'n gallu ymateb i newid cymdeithasol-economaidd ac â chysylltiad clòs â blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r arolwg o'r fframwaith fod yn seiliedig ar fonitro parhaus, gan sefydlu newidiadau mewn amodau yn erbyn cyfres o feini prawf y cytunwyd arnynt.

## ATODIAD

### FFRAMWAITH CYNLLUNIO GOFODOL I GYMRU

#### PAPUR TRAFOD AR GYFER YMGYNGHORI

##### *Cyflwyniad*

Diben y papur hwn yw darparu templed bras i lywio'r ymgynghori gyda gweithredwyr allweddol fel rhan o Gam 3 yr Astudiaeth. Fe'i cynlluniwyd i ganfod safbwyntiau ystod o weithredwyr ynglyn â rôl bosib NSPF, ei ffurf, ei gynnwys posib a'r materion allweddol a fyddai'n cael eu hystyried gan yr astudiaeth.

##### *Cynnwys*

##### **Yr Angen**

1. Oes angen NSPF yng Nghymru? Oes/Nac oes

Nodwch y rhesymau pam

Os NAC OES, nodwch safbwyntiau ar y ffurf fwyaf priodol i NSPF pe cyflwynid un, gan ddefnyddio'r testunau canlynol fel arweiniad.

Os OES, dilynwch y strwythur a ganlyn.

##### **Nodau Cyffredinol**

2. Beth fyddai nodau cyffredinol NSPF? (gallech edrych ar y canlynol)  
Helpu datblygiad strwythurau trefol a gwledig cytbwys  
Helpu i ddsbarthu swyddogaethau i ffwrdd o ardaloedd mynediad  
Hyrwyddo rhwydweithiau ardaloedd trefol  
Nodi ardaloedd llai deinamig

##### **Rôl a statws**

3. Pa rôl fyddai gan NSPF yng Nghymru? (gallech edrych ar y canlynol: Arwain y defnydd o dir ac adnoddau i ddiwallu anghenion Cymru a'i phobl, unwaith i'r drafodaeth ddechreuol ddechrau)

4. A fyddai'r fframwaith yn gweithredu fel:  
Gweledigaeth  
Strategaeth gyffredinol  
Cynllun manwl

Pam?

5. Pa statws ddylid ei roi i'r strategaeth?  
Mynegol  
Cynghorol  
Statudol

Pam? Beth yw goblygiadau'r dull hwn? (e.e. gallai statws statudol olygu gwastatáu'r cynnwys)

6. A ddylai'r NSPF fod yn gynrychioliad dadansoddol o strwythurau gofodol yn bennaf, yn darparu cyfrwng ar gyfer datblygu dulliau polisi newydd neu a ddylai weithredu fel nod polisi ynddo'i hun?

### **Cysylltiadau â strategaethau eraill**

7. Ydych chi'n teimlo y gallai NSPF weithredu fel peirianwaith ar gyfer integreiddio gwahanol bolisiau?

8. Pa strategaethau neu gynlluniau allweddol allai'r NSPF gysylltu â hwy (peidiwch ag awgrymu)  
Traws-genedlaethol: ESDP, INTERREG  
Cenedlaethol: NEDS, Cludiant, Cynllun Datblygu Cynaliadwy ayb.  
Rhanbarthol: Cronfeydd Strwythurol yr UE, Fframweithiau Cynllunio Rhanbarthol  
Lleol: Cynlluniau Datblygu Unedol

9. Pa fath o gysylltiad fyddai hwnnw?

## **Cynnwys NSPF**

10. Pa bynciau fyddai'n cael eu cynnwys mewn NSPF?

11. A fyddai dull thematig fel y canlynol yn briodol?

Strwythur anheddiad

Strwythur economaidd

Strwythur manau agored

Cysylltiadau cludiant a chyfathrebu (Hygyrchedd)

Cysylltiadau trefol a gwledig

Cysylltiadau traws-ffiniol/Ewropeaidd

Datblygiad rhanbarthol cytbwys

Dull polysentrig

Diogelu a gwerthfawrogi asedau naturiol a diwylliannol

Eraill (nodwch)

12. Ydyn ni'n gwybod digon am Gymru i ddatblygu NSPF ar hyn o bryd?

Faint mwy o wybodaeth sydd ei hangen, os o gwbl?

## **Cyflwyniad**

13. Sut gyflwyniad fydd i'r fframwaith?

Testun yn unig

Testun yn bennaf

Testun a mapiau

Mapiau yn bennaf

Mapiau yn unig

**A oes unrhyw faterion allweddol eraill i'w hystyried wrth baratoi NSPF?**

**Diolch yn fawr**



